

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr

ECO'r Wyddfa

Rhif: 439

Rhagfyr 2015/ Ionawr 2016

Pris: 70c



Hogia Llanbabs...



...a'r mwnci bach!

O Steddfod yr Urdd i'r Gemau Olympaidd a'r 'Tour de France'

Dim ond yng Nghymru y gellir cael y fath gyfuniad. Enillydd Steddfod yr Urdd yn gyfrifol am enillwyr medalau aur Gemau Olympaidd a phrifwobrau beicio y byd. A'r cwbl wedi digwydd mewn taith fer o Glwt y Bont drwy Bentre Helen i Stryd Fawr Deiniolen.

Dyna'r daith ddisgrifiwyd gan Syr David Brailsford mewn noson fythgofiadwy yn neuadd Ysgol Brynrefail ddiwedd Tachwedd; taith a gadwodd neuadd orlawn yn eu seddi am bron i deirawr, a thaith a fyddai wedi eu cadw yno am deirawr arall pe baent wedi cael dewis. O'r awydd yn fachgen ifanc i ennill cystadleuaeth gwisg ffansi yng Ngharnifal Deiniolen i'w llwyddiant ar adrodd yn Steddfod yr Urdd yn Llanelli a'i benderfyniad i'w "mentro hi" fel beiciwr proffesiynol yn Ffrainc, aeth â'r gynulleidfa ar daith hynod. Dychwelyd i Brydain, graddio mewn astudiaethau chwaraeon ac ymuno â thim rheoli beicio Prydain – ac fe wyddoch weddill y daith. Llwyddiant yn dilyn llwyddiant.

Do, disgrifiodd yn glinigol bron, y sylw a'r canolbwyntio a roir i bob manylyn sydd wedi bod yn nodweddiadol o'i yrfa, ond sydd wedi bod yn hollol angenrheidiol i sicrhau'r llwyddiant hwnnw. A rhoddodd ragflas o'r math o fanylder fydd yn cael ei sylw yn y dyfodol hefyd wrth geisio cadw un cam (neu un tro olwyn yn hytrach) ar y blaen i'w holl wrthwynebwyr yn y byd beicio. Ond gwnaeth y cyfan gyda dogn go dda o hiwmor.

Cyflwynwyd David Brailsford ar y noson gan Eifion Jones ("dim ond dros dro rydwi'n 'syr'!"), Pennaeth Ysgol Brynrefail, a Malcolm Allen, y cyn chwaraewr peldroed dros Gymru yn ei holi ar ddiwedd y sgwrs. Hogia Llanbabs! A'r tri ohonynt wedi chwarae peldroed i dim iau y pentref tra'n fechgyn ysgol, ac yn honni mai hwnnw oedd y tim gorau a welodd y pentref!

A chafwyd diwedd glo perffaith, gyda David Brailsford yn adrodd unwaith eto, y darn adrodd hwnnw o Steddfod Llanelli am helynt y mwnci bach. Ie, y mwnci bach gafodd gymaint o sylw ganddo yn ystod ei sgwrs. Ond dim ond y rhai fu'n ddigon ffodus i gael tocyn i'r noson sy'n deall arwyddocad y cyfeiriad yna!

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015			
Rhifyn Chwefror	Copi i law Ionawr 17	Bwndelu Ionawr 29	Ble Waunfawr

RHIF 439
Nadolig 2015
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Swn yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
 (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhiannonmai@btinternet.com
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
 Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)
NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com
PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid **76**
 dylunio graffeg
 07766956673

LLYTHYRAU

Anrheg i'r Iaith

Annwyl Gyfeillion

Ydych chi'n dal i chwilio am yr anrheg Nadolig perffaith? Ddim yn gwybod beth i'w roi i ffrind neu aelod o'r teulu? Beth am aelodaeth neu gyfraniad at waith Dyfodol i'r Iaith yn anrheg iddynt? Nid yn unig yn anrheg i'w roi ond hefyd yn anrheg a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lewyrch y Gymraeg. Wrth roi cyfraniad fe gewch gerdyn Nadolig pwrpasol i'w gyflwyno i gydnabod y cyfraniad ac fe gewch fanylion a newyddion rheolaidd am ein gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae Dyfodol i'r Iaith ar fin cychwyn ar ei phedwaredd flwyddyn ac mae cyfraniadau ein haelodau a'n cefnogwyr dros y blynyddoedd cyntaf wedi ein galluogi i gryfhau ein dylanwad drwy benodi dau swyddog rhan amser i arwain y gwaith lobio a rhoi trefn weinyddol i'r mudiad. Rydym hefyd wedi creu Rhaglen Weithredu arloesol i'w chynnig i'r Llywodraeth ac i'r pleidiau gwleidyddol: Creu Dyfodol i'r Gymraeg. Mae hon yn sail i drafodaeth ymysg y pleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Beth sy'n arbennig am Dyfodol i'r Iaith? Rydyn ni am weld newid cyfeiriad o fynnu statws a hawliau i gynyddu niferoedd siaradwyr ac i ddefnyddio'r iaith yn y cartref a'r gymuned. Ein barn ni yw y bydd hyrwyddo a gweithredu egniol ac effeithiol yn y meysydd hyn yn trawsnewid rhagolygon yr iaith.

Ein nod yw cael swyddogion amser llawn i wneud y gwaith lobio'n effeithiol a pharhaus. Trwy gynyddu incwm gallwn ni wneud hyn. Hyn fydd yn rhoi modd i ni weithredu'n fwy effeithiol eto ac fe all eich rhodd chi wneud gwahaniaeth i'r gwaith allweddol yma.

Os ydych yn dymuno ein cynorthwyo drwy brynu 'Anrheg i'r Iaith' neu gyfrannu'n bersonol at ein gwaith, gellir trefnu hyn drwy gysylltu gyda Meinir James, ein Swyddog Datblygu, drwy ebost – meinir@dyfodol.net; ffôn – 07989 830128 neu gallwch ymweld â'n gwefan – www.dyfodol.net i archebu.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwn yn gallu ymfalchio gyda'n gilydd, ymhen amser, ein bod wedi bod yn rhan o fudiad fydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at lewyrch y Gymraeg.

Llawer o ddiolch ichi ymlaen llaw
 Elinor Jones
 Llywydd Dyfodol i'r Iaith

At y Golygydd

Dymunaf Nadolig Llawn i bawb sydd ynglŷn â sicrhau ein bod yn cael yr Eco bob mis.

Yr ydych i gyd yn gwneud gwaith ardderchog ar hyd y flwyddyn i ofalu ein bod yn cael Papur Bro difyr, gwerth ei gael, gyda'r gorau. Mwynhewch ychydig o seibiant haeddiannol dros yr Ŵyl.

Diolch yn fawr, Darlennydd Gwerthfawrogol
 (Derbyniwyd enw a chyfeiriad y llythyrwr)

Cae Eboni,, PENISARWAUN.

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch o galon i lu o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa am fy hysbysu mai y diweddar T.H. Jones (Twm Bethel) oedd awdur y gerdd, CEWRI LLANBERIS. Cynhwyswyd y gerdd yn ail gyfrol y bardd, "Cerddi ac Atgofion Twm Bethel". Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gwasg Y Tir ym mis Mai 1976. Rhoddodd hyn yr awydd ynof i ail ddarllen y gyfrol, ac yn wir cefais yr un mwynhad ac a gefais o'i ddarllen flynyddoedd yn ôl.

Yn gywir,
 Arwel Jones

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£100: Er cof tyner am Geraint Rees Morris o Fferm Hafodty, Waun Cwm Brwynog, Llanberis, a hunodd ar 20fed Ionawr 2012 yn ddeugain mlwydd oed. Gan Eira, ei wraig a'r plant, Hafodty, Rhys a Gwenno y ferch a'i ŵyr, Jac bach, Cae Cerrig; Teulu Cefn Coch, Deiniolen a theulu Pant-y-Buarth, Brynrefail.

£20: Mrs Gwen Jones, Llanrug, er cof am ei mam Mrs Dilys Baylis, Llanberis; Edfryd ac Ada Jones, Ty'n Twill, Brynrefail.

£10: Mrs Eunice Roberts, 16 Maes Padarn, Llanberis; Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis; Er cof am Catherine Morris, Bethel gan Selwyn a'r teulu; Mrs N. Evans, 26 Bryn Tirion, Penisarwaun.

£5: Kathryn Jones, Dolwen Fach, Bethel; Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun.



Beics Menai Bikes

RHAN O DEULU ANTUR WAUNFAWR

BEICS NEWYDD AC OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHLANT



ANRHEGION 'DOLIG FFANTASTIG!

(01286) 676 804 NEU 07436 797969

BEICS MENAI, 1 Cei Llechl, Caernarfon
E-POST: gary.leadbitter@anturwaunfawr.org

Parhad LLYTHYRAU

Prif Swyddfa UCAC
Ffordd Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 2EU

Annwyl Olygydd

UCAC yn dathlu pen-blwydd yn 75 mlwydd oed

Sefydlwyd UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) yng Nghaerdydd yn 1940 gan grŵp o athrawon oedd yn gweld yr angen am undeb athrawon fyddai'n ymateb i anghenion penodol athrawon Cymru.

Ar 14 Rhagfyr 2015, bydd UCAC yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 75 mlwydd oed. Mae'r amcanion hynny a sefydlwyd yn y cyfarfod cyntaf dan arweiniad Gwyn M. Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf UCAC, yn parhau i fod yn greiddiol i waith yr undeb heddiw.

Dyma sydd wedi'i gofnodi yn y Llyfr Cofnodion:

'Daeth nifer dda o athrawon o bob gradd o'r Ysgolion Elfennol i'r Brifysgol ynghyd yn Nhŷ'r Cymry, Heol Gordon, Caerdydd am 1.30 o'r gloch ddydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg 1940 i sefydlu'r Undeb.'

Fel y dywed Rhodri Llwyd Morgan yn ei erthygl Sefydlu Archif UCAC 1940-c.1980 (Amser Egwyl, Rhifyn 1, Rhagfyr 2000): 'Adeg ei sefydlu, roedd UCAC yn fudiad arloesol. UCAC oedd yr undeb llafur proffesiynol cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru a hynny gan Gymry a thros Gymru. Cynrychiolai gorff a fynnai ganolbwyntio meddyliau ar anghenion addysgol a diwylliannol Cymru.'

I gofnodi 75 mlynedd ers ei sefydlu, bydd UCAC yn lansio archif ddigidol ar-lein fydd yn cynnwys lluniau, dogfennau, posteri a chyhoeddiadau amrywiol. Mae'r undeb yn galw ar aelodau presennol, cyn-aelodau, teuluoedd sylfaenwyr yr undeb, ac unigolion sydd â chysylltiad â'r undeb i fynd i dwrio am luniau, dogfennau neu effemera yn ymwneud â'r undeb. Bydd UCAC yn sganio ac yn cofnodi pob eitem ddaw i law mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru dros yr wythnosau nesaf, a gyda chaniatâd, yn cyhoeddi'r deunydd ar-lein. Mae'r undeb yn annog pobl i ddod i gysylltiad a hwy os oes ganddynt ddeunydd perthnasol; 01970 639950 neu ucac@ucac.cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Carys Lloyd ar 01970 639950 neu carys@ucac.cymru

Gyda dioch
Elaine Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

Yn ystod y mis aeth heibio

• Daeth Desmond a'i storm ar ymweliad byr ond cofiadwy â'r fro. Ac er i nifer helaeth o ffyrdd lleol gael eu heffeithio gan lifogydd, rhaid diolch na ddioddefwyd y fath ddifrod ac a wnaethpwyd dair blynedd yn ôl.

• Ar wahan i'r tywydd, sydd gyda ni'n barhaus, y ddadl hirfaith yn Nhŷ'r Cyffredin ynglŷn ag anfon cyrch awyr dros Syria aeth â'r sylw, a phenderfyniad a all effeithio arnom ni yma ym mro'r Eco hyd yn oed, yn enwedig os oes aelodau o'n teuluoedd yn y Lluedd Arfog.

Ddwy flynedd yn ôl roedd Cameron yn awyddus i orchfygu llywodraeth Bashar Assad. Mae bellach am orchfygu ei elynion, a gobeithio fod gelynion eraill iddo am ei gynorthwyo. Ddeufis yn ôl roedd Hilary Benn yn gwrthwynebu bomio yn Syria. Cafodd ei ganmol i'r cymylau yn dilyn ei araith huawdl o blaid cyrch awyr ar noson y bleidlais. Anghyson? Anwadal?

Yr un fu safiad Jeremy Corbyn cyn ac yn ystod y ddadl. Ac am hynny fe'i cyhuddwyd o fod yn 'ddyn gwan'. Cadwodd at ei egwyddorion. Gwleidydd o egwyddor? Anifail prin. Ai dyna pam tybed y mae cymaint o daflu sen tuag ato? Yr un hefyd oedd safiad Plaid Cymru, Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Werdd.

Mae'n arwyddocaol fod y cyfan ond dau o aelodau seneddol yr Alban wedi pleidleisio yn erbyn rhyfel, a dros 60% o aelodau seneddol Cymru. Gwir y dywedodd Dafydd Wigley yn ei golofn yn y Daily Post mai Toriaid ac aelodau 'Middle England' oedd yn gefnogol i ryfel.

Roedd sylw'r Prif Weinidog mai rhai'n 'cydymdeimlo â therfysgwyr' oedd y garfan a wrthwynebai'r cyrch ar Syria yn gywilyddus. Roedd ei fethiant i ymddiheuro am y fath sylw yn warth. Ac os yw wirioneddol yn credu yn yr hyn a ddywedodd, pa mor gynnar y caiff ei aelodau seneddol Toriaid a wrthwynebai ei safbwynt, eu diarddel o'r blaid? Mae'n werth dyfynnu brawddegau olaf Mhairi Black, yr aelod seneddol ieuengaf yn San Steffan, mewn erthygl ddeifiol a miniog a gyhoeddwyd yn y papur Albanaidd The National : *"At the end of Hilary Benn's speech calling for the bombs to fall, I will never forget the noise of some Labour and Conservative MP's ecstatically clapping and cheering like war was some kind of football game where a goal has been scored in the last minute. The imperial mindset of the British Empire is alive and well and the drums of war are beating again."*

Yr hen a wŷr a'r ieuanc a dybia?

Gair gan y Golygydd.

Daeth cymaint o eitemau i law y mis diwethaf fel y bu'n rhaid cadw rhai'n ôl tan y rhifyn hwn. (Mae cyfyngiadau ariannol yn golygu na allwn fforddio cyhoeddi rhifyn 36 tudalen ar hyn o bryd!)

Ond mae problem y lluniau wedi dychwelyd. Derbyniwyd nifer o luniau oedd yn edrych yn dderbyniol ar sgrin y cyfrifiadur, ond yn hollol amhosib eu chwyddo ar gyfer anghenion y papur. Byddem yn hapusach pe bai pob llun yn cael ei anfon ar ffurf j-peg.

Felly, adduned blwyddyn newydd amdani: anfonwch pob llun ar ffurf j-peg!

A daliwch ati i anfon eich holl newyddion, straeon, digwyddiadau, barddoniaeth ac yn y blaen, ac fe wnawn ein gorau glas i'w cynnwys – os bydd gofod yn caniatáu!

Canmol a chwyno

Diolch am lythyr yn diolch. Peth prin y dyddiau hyn. Ar y llaw arall, derbynïaf gwynion yn fisol bron – ac nid gan yr un person! Cofiwch mai gwirfoddolwyr yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim sy'n gofalu fod yr "Eco" yn cyrraedd eich cartrefi yn fisol.

Mae'n dymor ewyllys da. Da chwi, cadwch rhywfaint ohono i'w rannu drwy gydol y flwyddyn i ddod.

Mwynhewch y gwyliau. Bydd rhifyn nesaf yr "Eco" allan ddiwedd Ionawr 2016.

"Eco'r Wyddfa" ar dâp

Y Golygydd Chwaraeon, Richard Ll Jones, sy'n trefnu fod eitemau o'r papur yn cael eu darllen a'u recordio ym Mangor yn fisol gan Gymdeithas y Deillion. Mae tua 60 o dapiau wedyn yn cael eu dosbarthu. Oherwydd iddo dderbyn triniaeth feddygol dros gyfnod rhifynnau diwethaf yr "Eco", ni fu'n bosib parhau efo'r gwaith. Ond y newyddion da yw fod Richard yn gwella, a bydd y rhifyn hwn o'r "Eco" i'w gael ar dâp ddechrau'r flwyddyn newydd.



grid ⁷⁶ graphic design
Print / Sign / Motion

**Nadolig Llawen
Merry Christmas**

07766956673
www.grid76.co.uk



Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Tachwedd oedd Mrs. Elsie Stephens, Plas Pengwaith.

Cyfarchion Nadolig Mae Mrs Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i ffrindiau, gan na fydd yn gyrru cardiau eleni.

Cyfarchion y Nadolig Dymuna Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau, cymdogion a theulu.

EGLWYS SANT PADARN Cynhelir Gwasanaeth Preseb ar Ragfyr 24ain am 2 o'r gloch y prynhawn. Croeso cynnes i bawb, ac i blant wisgo i fyny fel cymeriad o stori'r Geni.

Dydd Nadolig - Cymun Nadolig am 10 o'r gloch y bore.

Dymuniadau'r Nadolig Dymuna Mrs Eunice Roberts, 15 Maes Padarn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion oll, gan na fydd yn anfon cardiau y flwyddyn yma.

Dymuniadau'r Nadolig Dymuna Louie Pritchard, 20 Dôl Eilian, Nadolig Llawen i'r teulu, ffrindiau a chymdogion y fro, a diolch hefyd am gofio ataf pan gollais fy mrawd Myrddyn, un o hogia'r Garage, colled fawr!

OEDFAON SUL CAPEL COCH

Ionawr 3ydd: 10yb Oedfa Syh Parch. Gwynfor Williams

10fed: 10yb Y Gweinidog; Syh Oedfa Moli

17eg: 10yb Oedfa; Syh Oedfa

24ain: 10.30 Oedfa Deulu

31ain: 10yb Mrs Dewi Jones; Syh Parch. Euros Jones

Merched y Wawr



Merched y Wawr Dathlu 40 mlynedd ers sefydlu cangen yn Neiniolen

Bu Merched y Wawr Deiniolen yn dathlu sefydlu'r gangen ddeugain mlynedd yn ôl yn mis Tachwedd. Cafwyd noson o ddathlu arbennig a chinio bendigedig yng Ngwesty Fictoria Llanberis, a cawsom

y fraint o groesau Llywydd Merched y Wawr, Mrs Meryl Davies, atom i ddathlu.

Croesawyd pawb i'r dathliad gan ein Cadeirydd, Mrs Ann Lloyd, a chafwyd dipyn a hanes sefydlu'r gangen a beth oedd yn digwydd o'n cwmpas 40 mlynedd yn ôl. Yna cawsom ein diddori gan Gwilym

Bowen Harris. Canodd amryw o ganeuon gwerin, a theimlai pawb bod y canu o safon uchel iawn, ac 'roeddym wedi mwynhau'r cyflwyniad yn fawr iawn.

Cafwyd gair Mrs Meryl Davies, Llywydd Merched y Wawr. Roedd wedi ei phlesio yn fawr am inni ddal ati cyhyd.

Mae llwyddiant y gangen yn ddyledus iawn i'n hysgrifenyddes, Iona Richards, ac i'r holl swyddogion ffyddlon eraill. Cyflwynwyd blodau i'r Llywydd ac hefyd i bedair o'r aelodau a fu'n perthyn i'r gangen o'r dechrau sef Margaret Cynfi Griffith, Helen Sutherland, Margaret Roberts a Marian Williams.

Parhad DEINIOLEN



Gŵyl Deiniolen ar Cylch

Cafwyd noson hynod lwyddiannus yn ddiweddar yn Ysgol Brynrefail yng nghwmni David Brailsford. Roedd yn hel atgofion am ei fagwraeth yng Nghlwt y Bont a Deiniolen ac yna yn sôn am ei yrfa hynod lwyddiannus yn y byd cystadleuol rasio beics a'i lwyddiannau gyda thîm Sky yn y Tour de France a thimau Prydain yn ngemau Olympaidd amrywiol. Yna cafwyd cyfle i'w holi gan un arall o enwogion y pentref, sef Malcolm Allen, a dyna ddifyr oedd gweld dau hogyn lleol yn holi ei gilydd am eu llwyddiannau a braf iawn oedd gweld y ddau yma a fagwyd o fewn yr un filltir sgwâr yn cyrraedd uchelfannau eu meysydd arbenigol ac yn falch

iawn o'u cefndir a'u magwraeth yn Neiniolen. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i un arall o hogiau'r pentref, sef prifathro Ysgol Brynrefail, Mr Eifion Jones, am ei barodrwydd i gynnal y noson. Hoffwn ddiolch hefyd i staff yr ysgol am eu cymorth ar y noson. Diolch yn fawr iawn i Euryr Owen a'i wraig, Lona, am eu cymorth wrth drefnu'r noson, i'r holl siopau am werthu'r ticedi ag wrth gwrs i bawb a gefnogodd ar y noson. Dwi'n siŵr y bydd pawb yn cytuno ei bod hi wedi bod yn noson arbennig iawn.

Profedigaeth Ar aelwyd 23 Rhydfadog ar Tachwedd 27ain bu farw Dewi Wyn Thomas yn 85 oed. Bu'n byw ar aelwyd ei gyfeillion mawr, Brian a Megan Jones, ers 3 blynedd ac yno derbyniodd ofal hynod garedig ac fe wnaethant y gorau iddo. Roedd yn gyfaill oes i Brian ac roedd y teulu cyfan yn meddwl y byd o Dewi. Tŷ Newydd, Bethesda Bach, oedd ei gartref, yn fab ieuengaf i Dafydd ac Anne Thomas. Gweithiwr y ffordd diwyd a chydwybodol gydag Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd oedd a'i ddiddordeb pennaf oedd bridio ac arddangos adar mewn nifer o sioeau. Roedd Dewi yn boblogaidd, adnabyddus, caredig a chwmniwr da. Roedd ei gynhebrwng yn Nghapel Brynrodyn, Y Groeslon, ar bnawn Llun, y 7fed o Rhagfyr, ac yn gwasanaethu roedd y Canon Idris Thomas, Glanrafon a'r Parchedig Gwenda Richards, Caernarfon. Yr Ymgymwrwr oedd Huw John Jones, Pontllyfni.

Eglwys Crist Noswyl Nadolig am 6.00yh - bydd Cymun Bendigaid Cymraeg gyda'r Canon Idris Thomas, croeso i bawb ymuno.

Diolch Bore Coffi Macmillan - hoffai Lynda a Carol ddiolch i bawb am gefnogi y Bore Coffi tuag at Macmillan ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 14eg. Fe godwyd y swm o £185 tuag at yr achos.

Cyfarchion y Nadolig Dymuna Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a chymdogion am na fydd yn danfon cardiau eleni.

Profedigaeth Trist ofnadwy oedd clywed am farwolaeth sydyn Malcolm Lloyd Jones, Stryd Fawr Deiniolen. Fe frwydrodd yn hynod ddewr yn erbyn salwch difrifol a braf oedd ei weld yn ôl yn Neiniolen wedi cyfnod yn yr ysbyty ym Manceinion ar ôl llawdriniaeth fawr. Ond yn anffodus ni allodd ei orchfygu a thrist iawn yw'r golled ar ei ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei deulu a'r nifer mawr iawn o ffrindiau agos oedd ganddo.

Cymdeithas Undebol Deiniolen Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan y llywydd, y Parch. J. Pritchard ac yn arbennig y siaradwr, Dr Robin Parry, Llanberis. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Dr Parry. Testun y sgwrs oedd

cerrig difyr sef Carreg Cannon, cawsom weld lluniau o'r cerrig a'r slides, ac mae amryw ohonynt yn Llanberis a Nant Peris ar y ffordd rhwng Llanberis a Chwm y Glo, mae rhai i'w gweld hefyd ar Gallt y Foel. Diolchwyd iddo gan Mr John Ll Williams a chyhoeddwyd mai Mr Barry Davies fydd y gŵr gwadd ym mis Ionawr.

Cyfarchion y Nadolig Estynnwn ddymuniadau gorau i holl drigolion yr ardal a darllenwyr yr Eco dros Ŵyl y Nadolig, a gobeithio y cawn iechyd ar gyfer y flwyddyn newydd i ddod.

Cofion Dymunwn wellhad buan i'r rheini sydd wedi bod yn wael neu'n derbyn triniaeth yn ddiweddar, pob dymuniad da i chi i gyd.

Goleuadau Nadolig ar hyd y Stryd Fawr Er gwaethaf y tywydd mawr cafwyd noson lwyddiannus eto eleni yn rhoi goleuadau Nadolig y stryd fawr ymlaen. Diolch i bawb a gymerodd rhan, Seindorf Arian Deiniolen, Parti Cynfi ac i Frenhines yr Ŵyl, Kelen Hughes, am wthio'r botwm i rhoi'r golau ymlaen. Diolch i'r Wellington ac i'r Bull am baratoi lluniaeth i bawb.

Llwyddiant Amy Yn ddiweddar fe gafodd Amy Evans, 16 oed o Ddeiniolen, sydd ym mlwyddyn 12 Ysgol Brynrefail lwyddiant arbennig. Cafodd ei dewis i gynrychioli plant byddar Cymru ynghyd ac un person arall o Gymru a 16 person byddar o Lloegr dan nawdd yr elusen National Deaf Children's Society. Mae gan Amy "moderate deafness" ers yn bedair oed ac mae'n gwisgo dau declyn clywed ac yn dibynnu'n hollol ar ddarllen gwefusau a system FM. Ym mis Chwefror, bydd yn teithio i Birmingham am ddau diwrnod gyda 17 o bobl ifanc byddar eraill i drafod beth sydd angen ei newid ar gyfer plant byddar yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cael cyfle i gyfarfod pobl enwog; cymryd rhan mewn cyfarfodydd gwleidyddol a gwneud pítsas! Mae Amy yn hynod o ddiolchgar a hapus i gael y cyfle i gynrychioli plant byddar Cymru.

Cyfarchion Nadolig Mar Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones
01286 650255

Seindorf Ieuenctid Deiniolen



Ar ddydd Sadwrn ,y 21ain o Dachwedd, cafwyd llwyddiant mawr i Fand Ieuenctid Deiniolen wrth gystadlu ym Mhrif Adran Ieuenctid Pencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru. Cipiodd y band y wobwr gyntaf am yr emyn orau, ail wobwr am y darn prawf ac enillodd Richard Alun Efans ar y corn soprano y wobwr am brif unawdydd y gystadleuaeth. Dyma ganlyniad gorau'r Band Ieuenctid ers bron i ddeunaw mlynedd. Llongyfarchiadau mawr iddynt! Y nos Lun canlynol daeth criw teledu rhaglen 'Heno' S4C i'r Hen Felin i gael hanes y Band yn 180 mlwydd oed a rhoddwyd perfformiad byw gan y Band Ieuenctid yn ystod y rhaglen. Dyna beth oedd profiad newydd! Roedd amserlen brysur y Band Ieuenctid yn parhau ar nos Lun y 7fed o Rhagfyr pan gynhaliwyd cyngerdd Nadolig y Band Ieuenctid a'r Band Iau yn festri Capel Ebeneser, Deiniolen. Roedd y ddau fand yn cymryd rhan gyda Osian Tomos yn arwain y Band Ieuenctid a Gareth Williams yn arwain y Band Iau yn ei gyngerdd cyntaf gyda'r criw Iau. Yn cymryd rhan hefyd oedd Elin Dafydd a'r efeilliaid, Ioan a Dafydd, gyda Catrin Llywelyn ac Eleri Bean yn cyfeilio iddynt. Yn ystod y cyngerdd gwobrwywyd Dylan Efans gyda Tharian Er Cof am Mr a Mrs Eifion Williams fel chwaraewr mwyaf addawol y flwyddyn. Cyflwynwyd Tharian Goffa Mr a Mrs O.H. Jones i'r chwaraewr a

gyfrannodd fwyaf dros y flwyddyn yn y Band Ieuenctid, sef Ela Williams. Cafwyd noson gwerth chweil ac roedd festri'r Capel yn orlawn a phawb wedi mwynhau cyfraniad arbennig dros chwe deg o blant ac ieuenctid talentog yr ardal. Daeth Siôn Corn i'r festri ar ddiwedd y cyngerdd a chyflwynodd anrhegion i'r holl blant oedd yn bresennol. Hoffai Osian a Gareth ddiolch i'r holl rieni am eu cefnogaeth cyson, i bawb sy'n cynorthwyo gyda'r hyfforddi, i'r plant a'r ieuenctid am eu cyfraniad gwerthfawr ac yn arbennig i Siôn Corn am gofio amdanynt eto eleni. Gwerthfawrogwyd hefyd gefnogaeth teuluoedd a phentrefwyr ac i bawb a gynorthwyodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Yn ystod y noson cyhoeddwyd mai enillydd Ysgoloriaeth Iwan Williams oedd Twm Herd o Benisarwaen. Yn ogystal fe gydnabyddodd Pwyllgor yr Ysgoloriaeth y ceisiadau safonol gan roi canmoliaeth a thystysgrif yn ogystal i Lisa Morgan ac i Morgan Gwyn Williams. Dyma ddiwedd arbennig i flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Band Ieuenctid ac mae 2016 yn argoeli i fod yn flwyddyn brysur arall gyda ambell ddigwyddiad newydd a chyffrous ar y gorwel. Os yw eich plentyn yn dymuno ymaelodi â'r Band Ieuenctid neu'r Band Iau yna cysylltwch ag Osian ar 07717055639.



Dylan Twm Ela Osian a Lisa



Richard ac Osian

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD**

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG, Ffôn: 675523

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Dim Ond Y Gwir Llongyfarchiadau i Gwenno Hughes, Tŷ Mawr sydd wedi sgriptio rhai o'r rhaglenni cyfredol ardderchog sydd ar S4C, a dymunwn barhad ei llwyddiant ym myd y cyfryngau.

Tynfa Gan mai ar y trydydd dydd Llun o'r mis y cynhelir y dynfa, a bonws y Nadolig y tro hwn, bydd y canlyniadau i'w cael yn yr Eco y mis nesaf. Pob lwc i chi i gyd a diolch am eich cefnogaeth drwy y flwyddyn.

Clwb y Merched Cafwyd cinio Nadolig ardderchog yng ngwesty Bron Menai ar nos Iau, Rhag 4ydd, a phawb mewn hwyliau da er y gwynt a'r glaw. Diolch i Mair a Carys am y trefniadau trylwyr ac

am archebu tocynnau i ni weld Chwalfa yn Pontio fis Chwefror. Yn y cyfamser, ar Ionawr 28ain, byddwn yn cyfarfod yng Nghanolfan y Capel fel arfer ac yn cael cyfle i flasau bwydydd o archfarchnad Tesco. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Nadolig Llawen Dymuna tîm yr Eco yng Nghaeathro, sef Bethan, Rhiannon ac Aled, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ddarllenwyr. Diolch hefyd i Alwena sydd gymaint o gymorth i'r tîm golygyddol. Llauer o ddiolch hefyd i'r dynion, ifanc a chyhyrog!!, fu'n gosod y goeden a'r goleuadau ynghanol y pentref a gobeithio bod y gwyntoedd cryfion wedi mynd heibio.

Gwasanaethau y Capel.

Ionawr 3ydd: am 2.00 y prynhawn. Y Parch Marcus W. Robinson
Ionawr 17eg: am 2.00 y prynhawn. Y Parch W.R. Williams.
Llywydd ac organyddes y mis fydd Huw a Iona Ceiriog (673781)

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)



Llongyfarchiadau i Llinos, merch Dennis a Julie Jones, Rhos y Grug, a Darren Jones, mab Verona a Will, Caernarfon, ar achlysur eu priodas ar y 7fed o Dachwedd. Siân a Ffion, chwiorydd Llinos, ac Erin Medi Jones, merch Darren, oedd y morwynion a Rhun Llywelyn Jones, mab Darren yn was bach. Dathlwyd y briodas yng Ngwesty Seiont Manor, Pontrug, a'r mis mêl yn Madeira. Maent eisoes wedi ymgartrefu ym Mryn Berllan, Ceunant. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn





Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn

GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn: 673096

Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir



Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb



CYNGERDD
CAROLAU

2 o'rgloch DYDD SUL
RHAGFYR 20 2015
MYNYDD GWEFRU
LLANBERIS

- ☆ Seindorf Arian Deiniolen
- ☆ Côr Meibion Dyffryn Peris
- ☆ Unawdwr Gwadd

MYNEDIAD AM DDIM
Bydd Casgliad tuag at -Band Seindorf Deiniolen

Arddangosfa yn Ninorwig


Yn ystod yr wythnos gyntaf yn Rhagfyr cynhaliwyd arddangosfa yn Lodge Dinorwig (yr hen ysgol) i gofio am y Clwb Codi Pwysau Pŵer a arferai gyfarfod yno rhwng 1979 ac 1993. Gwyn Williams o Glwt y Bont fu'n gyfrifol am y gwaith, gan fenthycu lluniau ac offer oedd yn eiddo i'r Clwb gan Len Jones, Deiniolen.

Un o Dudweiliog yw Gwyn yn wreiddiol, ac yr oedd yr awydd creadigol yn rhan ohono erioed. Wedi cyfnod yng Ngholeg Menai bu'n astudio dylunio dodrefn yn Reading a threuliodd amser yn Llundain, ble bu'n gweithio mewn gwaith coed, metel ac acrylic. Tra yno cafodd y profiad o weithio gydag artistiaid fel Tracy Emin ac Anthony Gornley (y cerflunydd fu'n gyfrifol am y dynion metel ar y traeth yng Nghilgwri). Yn nes at gartref, mae hefyd wedi gweithio gyda Bedwyr Williams.

Ar hyn o bryd mae'n rhannu arddangosfa dri mis gyda Catrin Menai yn Oriel Mostyn, Llandudno, ar y thema Golwg Leol ar yr Ail Ryfel Byd.

Tra'n cynorthwyo gydag adnewyddu'r hen ysgol yn Ninorwig y sylweddolodd fod y Clwb Codi Pwysau Pŵer wedi bod yn cyfarfod yno, a phenderfynodd drefnu arddangosfa ar ei gost ac ar ei liwt ei hun i gofio am y Clwb.

Bu'r arddangosfa ar agor am wythnos yn ystod oriau agor y caffu uwchben, a daeth nifer o bobl leol (yn enwedig cyn-aelodau'r Clwb) yno i hel atgofion. Roedd eraill wedi teithio ymhellach, a dau gwpl wedi dod yno'n un swydd o ddyffryn Conwy i weld y gwaith. Heb fawr ddim hysbysebu, roedd yn syndod fel y lledaenodd y son am yr arddangosfa.



Diolch Ar ddiwedd blwyddyn fel hyn yr ydym yn teimlo fod gennym lawer o waith diolch a hynny am lawer cymwynas bach a mawr, felly yr wyf yn teimlo fod gennym fel ardal lawer o waith diolch i'n Cynghorydd Elfed Wyn Williams. Mae Elfed wedi dod yn gynghorydd mewn amser digon dyrys, ac wedi gorfod derbyn dyfnder eithaf y llif pan yn sôn am dai Cartrefi Cymunedol, gan fod cryn waith wedi cael ei wneud arnynt a hwnnw ddim i fyny â'r safon yn aml. Mae hynny wrth gwrs yn rhoi mwy o bwysau ar Elfed. Mae wedi bod yn gefn mawr inni ac yn dal i fod. Gobeithio y daw golau dydd erbyn y flwyddyn newydd ac y cei lonydd gennyf wedyn.

Rhwng pob dim mae wedi cael ei gadw yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn rhwng pawb o drigolion yr ardal. Diolch o galon iti, Elfed, er nad oedd llwyddiant yn dod bob tro, ond dim bai Elfed yw hyn, mae yn rhoi o'i orau inni fel ardal.

Gobeithio y cei seibiant heb broblemau dros dymor y

Nadolig i fwynhau y gwyliau. Felly diolch iti a Nadolig heb broblemau gobeithio.

Seindorf **Ieuencid Deiniolen** Braf oedd clywed ar 'Heno' y noson o'r blaen am lwyddiant y Seindorf Ieuencid a dan arweiniad Osian (mab y Canon Idris Thomas). Mae hynny o ddiddordeb mawr i ni yn ardal Dinorwig gan fod Idris yn un o blant yr ardal ac, yn well byth, yn un o blant y stryd.

Rhyw dair wythnos yn ôl bellach cafwyd llwyddiant yn Rhuthun. Cafodd y Seindorf gyntaf ar chwarae emyn, a'r ail wobwr am y darn prawf. Hefyd cafodd Richard Alun Efans y wobwr gyntaf am yr unawdydd gorau.

Llongyfarchiadau mawr i ti, Osian, mae'r dyfodol yn berffaith sicr yn dy law. Mae ardal Dinorwig yn falch iawn ohonot. Mab i Idris fyddi di byth. Dal ati.

Y ffordd wrth Lluet Rhyw ddau fis yn ôl bu imi dynnu sylw am y parcio ar y ffordd fawr wrth y Lluet ond yn lle gwella mae pethau wedi gwaethygu a does

dim bai ar y perchennog o gwbl. Mae parcio wedi mynd yn awr ar y ddwy ochr i'r ffordd a thrwy hynny mae yn anodd iawn i'r rhai sydd yn mynd i'r maes parcio gael y tro os am fynd i lawr am Ddeiniolen.

Ers pan y mae ar agor mae y cerbydau mawr sydd yn mynd i'r maes parcio – gan na allant droi i'r chwith wrth ddod oddi yno yn gorfod troi i'r dde, ac yn lle mynd i'r Allt Ddu i droi, maent yn troi yn y gyffordd sydd gyferbyn â thai Bro Elidir, lle y mae trafndiaeth yn dod o pump ffordd. Tybed a yw yr Adran Gynllunio yn sylweddoli maint y problemau mae hyn yn ei greu? Gobeithio yn arw iawn na fydd peth fel hyn yn achosi damwain.

Rwyf yn gofyn unwaith eto i'r bobl sydd yn mynychu y Lluet i feddwl am drigolion yr ardal a pheidio â pharcio ar y ffordd fawr gan fod maes parcio i'w gael yno. Felly, plis, plis, gwnewch iws ohono.

Genedigaeth Llongyfarchiadau mawr i Sioned a Geraint, 3 Maes Eilian,

ar enedigaeth eu mab, sef brawd bach i Hayley a Llion. Mae nain, sef Mrs Iona Phillips, 12 Maes Eilian, wedi gwirioni. Anrheg Nadolig i'r plantos ond gobeithio yn arw y daw Santa yr un fath. Bydd raid mynd i'r gwely yn gynnar, rhag ofn iddo basio.

Cyfarchion. Dymuna Ann a Lolo, plant y ddiweddar Alice Griffith, Tan y Bwlch, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a'r ffrindiau yn yr ardal.

Cyfarchion y Nadolig Dymunaf Nadolig Llawen iawn i'r ardal ac i holl ddarllenwyr yr Eco ac, wrth gwrs, i Mrs Megan Morris yn Llanberis. Cofion annwyl iawn atoch. Gobeithio eich bod yn cadw yn weddol.

Hefyd buaswn yn hoffi diolch i Wasg Dwyfor am eu cydweithrediad bob mis a diolch arbennig i'r ddau ddreifar sydd mor barod i helpu a thrwy hynny ysgafnhau y baich. Diolch hogia. Hwyl yr Wyl a phob bendith i bawb.

TM JONES
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellder)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmereydd@btinternet.com

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

Dyrchafiad i Ferch Fferm o Lanrug



Yn ddiweddar apwyntiwyd Rachel Williams a Sarah Edwards yn Gynrychiolwyr Cynorthwyol Ffermio newydd yn swyddfeydd NFU Cymru/NFU Mutual Pwllheli a Chaernarfon.

Bydd Rachel a Sarah yn gweithio ochr yn ochr â'r Uwch Ysgrifennydd Grŵp Hedd Rhys sy'n gyfrifol am ardaloedd Pwllheli a Chaernarfon.

Magwyd Rachel ar fferm Bryn Llan, Llanrug a bu erioed yn ymddiddori mewn amaethyddiaeth a da byw. Mae hi'n berchen ar fuches o wartheg ei hun ond yn hoff o weithio gyda gwartheg a defaid ar y fferm deuluol. Astudiodd Amaethyddiaeth, Cadwraeth ac Amgylchedd ym Mhrifysgol Bangor ac yn 2011 cychwynnodd weithio fel ymgynghorydd gwerthu i gwsmeriaid yn swyddfa Asiantaeth NFU Cymru/NFU Mutual Caernarfon. Meddai Rachel, "Rwy'n edrych ymlaen at yr heriau yn fy swydd newydd ac yn gobeithio y medraf gadw'r lefel o wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid sydd gennym yma yn yr asiantaeth."

Daw Sarah o Foduan yn Llyn.

Meddai Hedd Rhys wrth groesawu Rachel a Sarah i'r tîm, "Rwy'n falch dros ben i weld dau aelod o staff galluog a brwdfrydig yn ymuno â'n tîm lleol. Fel asiantaeth rydym yn canolbwyntio'n frwd ar wella'r gwasanaeth ar gyfer ein haelodau ac rydym yn awyddus i dyfu ein haelodaeth ar draws ardaloedd Pen Llŷn a Chaernarfon."

Suo-gân Mair, (Tôn: Elers)

Cwsg di fy maban, hun a wrth fy mron,
Noson o ryfedd wyrth yw'r noson hon.
Wele, mae'r seren ddisglair uwch dy ben,
Datgan y mae ddyfodiad Brenin Nen.

Cwsg di fy maban, wrth fy ochr i,
Wele, o'r Dwyrain daw y doethion dri;
Arwain yn ddyfal mae y seren wen -
Plygant, addolant di, O Frenin Nen.

Cwsg di, fy maban, daw'r bugeiliaid mwyn,
Gadael eu praid a wnânt ar ddôl a llwyn;
Hwythau a glywsant seiniau uwch eu pen -
Anthem o foliant glân, O frenin Nen.


Cwsg di, fy maban, ffoi fydd raid i ti,
Draw tua'r Aifft yn ddistaw gyda mi.
Herod ni chaiff dy ddifa di drwy sen -
Mawr fydd dy enw di, O Frenin Nen.

Cwsg di, fy maban, aros mae'r holl fyd,
Disgwyl yn ddyfal am yr Un o hyd.
Gweddi a glywn o'r ddaear, seren wen,
Gwared ni nawr, Ryfeddol Frenin Nen
John H. Hughes



ECO'r
Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
*Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL*



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Llifogydd Cors Llwyncoed

Daeth tri ymateb i'r hanes am broblem llifogydd i chwarelwyr Cwm y Glo tra'n croesi o'r Fricsan i Ben Llyn. Soniais fod y Cyngor Sir yn disgwyl ymateb gan Gwmni'r Rheilffordd ynglŷn â gwella'r ffordd. Daeth Eirwyn Williams, Llwyncoed (ac fe ddylai wybod am y trafferthion oedd ar y ffordd!) â'r ateb. Oherwydd fod y ffordd o Gwm y Glo i Ben Llyn yn bodoli cyn adeiladu'r rheilffordd, bu'n rhaid i'r cwmni godi pont i gario'r lôn dros y lein (y bont sydd bellach wedi ei dymchwel ers adeiladu'r ffordd osgoi). Y Cwmni Rheilffordd oedd yn gyfrifol am gynnal y bont, y ffordd drosti a'r ffordd am rai llathenni o'r naill ochr iddi. Mae'n cofio y byddai'r Cyngor Sir pan yn ail-osod tarmac ar y ffordd, yn stopio'r gwaith o'r naill ochr i'r bont. Mae hen bostyn metel yn dangos terfyn perchnogaeth y Cwmni Rheilffordd yn dal ar ei dir heddiw.

Cysylltodd Iwan Roberts, Llanrug ac Eifion Roberts, Llanberis yn cynnig llun o fws yng nghanol y llifogydd, a'r teithwyr yn sefyll ar y palmant uchel yn gwyltio trafferthion y bws yn ymgodymu



Mwy o ffotograffwyr

Mae'r ymholiad am William Williams a'r cysylltiadau efo Ynys Iago, Llanddeiniolen, wed esgor ar fwy o wybodaeth am ffotograffwyr eraill. Mae Ceri Foulkes, Deiniolen, wedi bod yn astudio nifer helaeth o hen luniau teuluol, a chefais ganddi restr o'r ffotograffwyr fu'n gyfrifol am dynnu'r lluniau rheini. Ac yn eu plith, wrth gwrs, roedd William Williams!

Cyfeiriad William Williams ar y lluniau yn ei meddiant oedd 24 High Street, Caernarfon; 154 Conway Street, Penbedw ac un arall na chafwyd sôn amdano hyd yn hyn, sef 239 Stanley Road, Bootle. Dim sôn yma chwaith am adeiladau'r Paternoster. Yr hyn sy'n od yw fod ffotograffwyr eraill yn rhannu'r un cyfeiriad. Mae A a G Taylor yn disgrifio'i hunain fel "Photographers to the Queen", ac yn rhoi eu cyfeiriad fel 34 Church Street, Lerpwl – a 24 High Street, Caernarfon. Tybed felly a oedd William Williams yn gweithredu fel asiant i'r cwmni hwn o Lerpwl?

Ymhlith ffotograffwyr eraill roedd H.J.Hughes a'i Portrait Gallery yn Twtil, Caernarfon a Stryd Penlan, Pwllheli; James Jackson, 42 Bangor Street, Caernarfon; a James Leach, 2 Dinorwic Street, Caernarfon. Ond yr un mwyaf mawreddog o lawer oedd Humphreys Photographic Studio and Fine Art Gallery, a hwnnw 'under Royal Patronage'. Roedd hefyd yn hysbysebu 'portraits and landscape in watercolour or crayon'. Ary Maes yng Nghaernarfon roedd ei stiwdio, felly mae'n debyg mai adeiladau'r Paternoster oedd y lleoliad.

Ymhlith yr holl ffotograffwyr hyn a'u cysylltiadau â Chaernarfon a Glannau Merswy, roedd un llawer mwy lleol, sef Guy Hughes, Clwt y Bont, a daeth hwnnw – a'i deulu – yn enwocach na'r un o'r lleill. Ond stori arall yw honno am y tro...



â'r dŵr. Roedd hyn yn ddigwyddiad digon cyffredin i deithwyr o Lanberis cyn adeiladu'r ffordd osgoi ar hyd gwely'r hen reilffordd.

Mae Eifion Roberts hefyd yn cyfeirio at broblem gyffelyb ar yr hen ffordd o'r Bont Fain i Bont y Bala yn Llanberis. Roedd y ffordd hon yn dioddef o lifogydd pan fyddai Llynnoedd Peris a Phadarn yn orlawn ac afon Hwch yn gorlifo'i glannau, ac yn achosi yr un math o drafferthion yn union i chwarelwyr y pentref wrth fynd a dod o'u gwaith yn Chwarel Dinorwig.

Cafodd y broblem hon ei datrys drwy godi palmant uchel hefyd. Ond roedd yr adeiladwr yn ddigon craff a hirben i wneud yn siwr fod bylchau yn cael eu gadael yn y wal er mwyn i'r dŵr gorlif lifo oddi ar y ffordd pan fyddai'r dŵr yn gostwng yn y llynnoedd.

Diflannodd y bylchau – a'r broblem gorlifo - yn sgil y newidiadau tra'n adeiladu Gorsaf Drydan Dinorwig, ond mae'r hen balmant uchel yn parhau ar yr hen lôn o'r Fricsan i Ben Llyn. Od mai datblygiad yr Orsaf Drydan roes ddiwedd ar y broblem yng Nghors Llwyncoed a Llanberis.



Pwy oedd Dewi Padarn?

Daeth toriad papur newydd i'm meddiant yn ddiweddar yn cofnodi marwolaeth Dewi Padarn. Roeddwn wedi clywed llawer o sôn am Dewi Peris, ond roedd yr enw Dewi Padarn yn ddieithr. Bu farw ddiwedd Mawrth 1890, ac y mae'r toriad yn fy meddiant allan o Baner ac Amserau Cymru.

David (neu Dafydd) Jones oedd ei enw, ac ar ei farwolaeth roedd ei gartref yn New Bodeilian, Llanberis. Ond mae'n amlwg iddo hefyd fyw yn gynnar yn ei oes ym Mrynbedw, oherwydd cai ei adnabod gan amryw fel Dafydd Jones Brynderw. Yn ôl yr adroddiad am ei farwolaeth, roedd "yn un o enwogion Eryri." Os hynny, pam na ddeuthum ar draws ei enw ynghynt?

Bu'n gwasanaethu fel ysgrifennydd i Gymdeithas Adeiladu Sant Padarn am flynyddoedd lawer, ac o dan ei gyfarwyddyd ef daeth y gymdeithas yn sefydliad gwerthfawr, nid yn unig yn Llanberis, ond yng nghymdogaeth Chwarel Dinorwig. Yr oedd yn amlwg gyda mudiadau cymdeithasol, ac yn ôl yr adroddiad "byddai ef bob amser naill ai gyda'i rwyf neu ynteu wrth y llyw." Roedd yn drefnwr cyngherddau a darlithiau – i gyd er mwyn codi arian i deuluoedd gweithwyr anffodus a ddioddefodd ddamweiniau neu salwch.

Ond pam Dewi Padarn? Y tueddiad yn y cyfnod hwn oedd cael enw barddol; ond does dim sôn yn adroddiad ei farwolaeth ei fod yn barddoni o gwbl. Yr unig gysylltiad barddol oedd ganddo hyd y gwn oedd y ffaith ei fod yn frawd yng nghyfraith i Dewi Arfon. Oes mwy o wybodaeth ar gael?

Tim Peldroed Waunfawr 1912-13

Anfonwyd y llun gan Gwilym Morris Jones, ac mae'n dangos un o dimau peldroed cynnar y Waunfawr. Tynnwyd y llun ar gae Glynafon. Efallai mai ar y cae hwn yr adeiladwyd Garej Whiteways, neu gallai'r cae fod yr un tu cefn i'r garej. Mae enwau'r tim wedi eu cofnodi ar gefn y llun, sef:



Rhes gefn o'r chwith: *David Jones (Dafydd bach Ty Becar), Bob Catrin Lisa, Lei Thomas Gallt y Bont, Bobby Glynafon, Tommy Ty'n Twll.*

Rhes flaen o'r chwith: *Robin Laura, Willie Pantwaen, ?, Owen Thomas (brawd Lei Thomas), Ifan Collfryn, Huw D. Hughes, Bob Morris Jones (Bob Moi Cynnant Lodge) a Robin Jones (Robin Teras).*

Os oes unrhyw un a gwybodaeth am y tim cynnar hwn, cysylltwch.

Siop fach Avon House

O ganlyniad i ymddangosiad llun o Avon House (Gwesty'r Gwynedd) yn rhifyn Hydref o'r Eco, cafodd Eifion Roberts wybodaeth fod y siop fach i'r chwith o'r gwesty wedi bod yn siop/gweithdy i deiliwr ar un amser. Ar dalcen yr Avon House yn y llun, mae enw Henry Jones i fyny fel perchennog. A'i hwn oedd yr Harri Jos Teiliwr y clywodd ei enw pan yn blentyn? Yng nghyfrifiad 1911 mae yna Henry Jones, Master Tailor, yn byw mewn rhan o westy Dôl Peris, hefo'i wraig Jane a'i fab John Ellis. Tybed mai yr un Henry/Harri ydi'r rhain i gyd. Yn dilyn Mrs Maxwell, fe fu'r siop fach yn gwerthu nwyddau ymwelwyr yn bennaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES

CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Oddiwrth Dylan A'r Staff
SHOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG

(01286) 671211

 Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

Canhwyllau

A Mai yn anterth prydferthwch
bob bore yn fore gwyn
canhwyllau a wnâi dywyllwch
yng ngolau'r castanwydd syn!

Âr stryd yn waed rôl terfysgaeth,
a Pharis a'r byd mewn braw,
Mil miloedd fflamau brawdoliaeth
oleuent y nos a'r glaw!

Os noeth fu'r stabl – roedd gyrchfan
bonnedd a gwerin fel un -
goleuwyd fflam yn ffurf baban
mewn preseb – yn Geidwad dyn!

Norman Closs



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



LLANRUG

Eryl Roberts. Peris, 56 Glanffynnon. Ffôn: (01286) 675384



Cyfarchion y Nadolig
Dymuniadau gorau i bawb am Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda.

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau mawr ar ddathlu ei ben-blwydd arbennig i Gareth Thomas, Glanffynnon. Deall ei fod wedi mwynhau ei hun yn arw iawn.

Profedigaethau Bu farw Gwilym John Jones, 45 Glanffynnon, yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn arw â'i deulu, sef Dylan ei fab a Ffion, merch yng nghyfraith, ar golli taid hoff. (Stad Minffordd gynt ond yn awr yn byw yn Awstralia)

Yn dawel ar ôl gwaeledd hir bu farw Islwyn Jones, 7 Stad Bryn Moelyn, yn ddiweddar yng Nghartref Penisarwaun.

Bydd colled fawr iawn i'r plant, Wena, Nest a Beth a'r teulu oll. Cydymdeimlwn â chi yn ddiffuant iawn.

Hafan Elan Mae Pwyllgor Trigolion Hafan Elan wedi bod yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y Nadolig.

Cawsant ginio gwahanol yr wythnos diwethaf lle roedd pawb yn cael sglodion a physgod o Siop y Pentre!! I'w diddori, daeth Côr Clychau'r Grug yno ac roedd pawb wedi mwynhau yn arw. Diolch i bawb gyfrannodd yn hael at wobrau y Raffl Nadolig – Dylan a Meinir (Ymgymrwyr), Siop Premier, Wavell's, Salon y Sgwâr, Elaine's, Siop Tegfan a'r Co-op. Diolch o galon i Elaine y Warden a'r gwirfoddolwyr i gyd.

Bydd hyfforddiant cyfrifiadurol yn cychwyn yn y flwyddyn newydd. Enwau i Dave, 22 Hafan Elan. Croeso cynnes i bawb.

Bydd y cinio Nadolig yn y Caban, Brynrefail. Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Capel y Rhos

Ar 22ain o Dachwedd, gyda'r gweinidog yn gweinyddu bedyddiwyd Grêd Wyn Jones, merch fach Gethin Jones ac Emma Parry, 1 Arfon Terrace. Pob bendith ar y teulu bach.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed, bu nifer o aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menai Williams. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat at Margaret Christian wedi marwolaeth ei mam. Dymunir adferiad iechyd buan i Julie, wedi triniaeth yn yr ysbyty. I'r rhai sydd â diddordeb cynhelir Cwrs Crefft y Gogledd ar 23 Ionawr 2016 yn Glastir,

Llanrwst. Y mae Catalog Ategolion y Mudiad ar gael gyda nifer o eitemau gwerthfawr ar werth.

Cynhelir Cinio Llywydd Rhanbarth y Gogledd yn Kinmel, Abergele ym mis Mawrth. Pris 20.

Bydd 'Distawrwydd Noddedig' yn cefnogi 'Codi'r To', cynllun a gychwynnwyd yn Venezuela ac mae Barry Gwenllian a Judith Humphreys yn gweithredu'r cynllun gyda ysgolion difreintiedig. Maent yn dysgu'r plant i ddefnyddio offerynnau o bob math a'u dysgu i weithio mewn grŵp gan roi cyfrifoldeb iddynt. Gan fod hyn yn costio i'w redeg, bydd y gefnogaeth yn dderbyniol iawn.

Diolchwyd i Pat, Meryl a Nan am y trefniadau trylwyr. Enillwyr y Raffl oedd Jean, Carrie, Ann a Linda.

Ar Ionawr 12fed edrychir ymlaen i glywed John Grisdale yn sôn am 'Gwaith Tîm Achub Mynydd Llanberis'.

Nadolig Llawn a phopeth da yn 2016.

Oedfaon mis Ionar 2016

- 3: Parch Marcus Wyn Robnson, Gweinyddir y Cymun
- 10: Parch Gwyndaf Jones
- 17: Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson
- 24: Parch Huw Pritchard
- 31: Parch Ddr Elwyn Richards

Pencampwyr Gogledd Cymru

Yng nghystadleuaeth bandiau pres gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Rhuthun ddiwedd mis Tachwedd, cadwodd Band Llanrug eu gafael ym mhencampwriaeth yr adran agored am yr ail flwyddyn yn olynol.

Ond nid dyna'n unig oedd llwyddiannau'r band. Daeth dau o aelodau'r band oddi yno gyda gwobrau unigol. Beca Roberts oedd enillydd Tlws Iwan Williams am chwaraewr gorau'r



Pencampwyr.



Cor Ysgol Gynradd Llanrug yng Nghyngerdd Nadolig y Band.

diwrnod ar y Corn Flugel. A daeth diwedd glo arbennig i flwyddyn nodedig i Owain Llestyn o Fethel wrth iddo yntau ennill y wobwr am Unawdydd Gorau yr Adran Agored.



Owain Llestyn a Beca Roberts



Sion Corn yn arwain y Band Ieuencig yn y Cyngerdd Nadolig

Tlws Llenyddol Cynradd

Eisteddfod Llanrug



Maredd Llwyd oedd enillydd y brif wobr lenyddol i oedran cynradd yn Eisteddfod Bentref Llanrug. Dyma'i cherdd fuddugol:

Cerdd

Yr haul yn disgyn wrth i'r dydd droi'n nos,
Llenni duon yn ymddangos.

Swn y seiren fyddarol, wrth wybod fod bomiau
Brawychus yn disgyn.

Rhedeg, rho, crio,
Calonnau'n curo.

Awyrenau arswydus yr Almaenwyr,
Aeth heibio'n slei ond swllud.

Tân yn tasgu tai yn Nhachwedd, Hydref tan Mai,
Dymchwel adeiladau yn dychryn.

Cartrefi cadarn cryf.....
Nawr yn ddim byd!

Camau cyntaf yn eich ofni,
Yn diolch neu yn dychryn.

Trysorau wedi troi'n llwch,
Does dim geiriau ond dial.

Maredd Llwyd



Clwb 300 Enillwyr mis Tachwedd oedd: £30: Mr W.M. Catt, Awel y Môr; £20: Steve a Carys Jones, Ty'n y Cae; £10: Mrs Pearl Williams, Parc.

Clwb Bowlio Ar nos Wener, Tachwedd 20fed, yn y Clwb Golff Caernarfon cynhaliwyd noson wobrwyo enillwyr cystadlaethau mewnol y Clwb Bowlio. Wedi pryd o fwyd blasus iawn, cyflwynodd y Llywydd, Emyr Evans, y Tystysgrifau i'r enillwyr fel a ganlyn:

Cwpan i'r merched: (wedi ei rhoi gan Garage Paul, Waun) 1. Catherine Jones; 2. Bethan Holding.

Cwpan y Llywydd: 1. Mal Burns; 2. Emyr Evans.

Tarian er cof am T.A. Thomas: 1. Mal Burns; 2. Joe Large.

Cwpan i Ddwbl: (wedi ei rhoi gan Gwalia Garage, Caeathro) 1. Catherine a Lleufer Pritchard; 2. Valmai Williams ac Idris Evans.

Mae aelodau'r Clwb yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Cymuned am eu rhodd tuag at redeg y Clwb eto eleni. Biti na fuasai mwy o aelodau yn ymuno. Mae yn ffordd ddifyr o dreulio pnawn neu gyda'r nos. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar bnawn Mawrth o 2-4 o'r gloch a gyda'r nos o 7-9 o'r gloch ac hefyd bob pnawn a gyda'r nos ar ddydd Iau, yr un amseroedd. Dewch i gael tro arni!

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Sefydliad yn Bron Menai, Caernarfon, bnawn Iau, Rhagfyr 3ydd. Cafwyd pryd

bwyd hyfryd a phawb wedi mwynhau eu hunain. Bydd y cyfarfod nesaf ar bnawn Iau, 7fed o Ionawr, yn Ffestri Eglwys y Waun am 1.30 o'r gloch. Prynhawn gyda'r aelodau fydd hwn. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Merched y Wawr Noson yng nghwmni Elin Huws Jones, un o blant y pentref agafwyd yn ein cyfarfod mis Hydref. Athrawes Gelf ym Mangor yw Elin ac roedd yn amlwg fod ganddi y gallu i ysbrydoli ei disgyblion. Daeth ac enghreifftiau o'i gwaith ffelt gwyd i arddangos i ni ac eglurodd sut i ymgymryd â'r broses o greu ffelt gogyfer â'i ddefnyddio i wneud pob math o greadigaethau. Cawsom gyfle i droi'n llaw at y grefft ac fe lwyddodd rhai yn well na'i gilydd! Diolchwyd i Elin am noson gartrefol a hwyliog.

Ddechrau Rhagfyr buom yn dathlu'r Nadolig yng nghlwb Golff Caernarfon. Cawsom bryd hynod o flasus a chafodd pawb anrheg o sach Siôn Corn. Croesawodd Irene un o'r aelodau, Doris Roberts, yn ôl atom ar ôl ei thriniaeth a dymunodd yn dda i Beryl wedi ei thriniaeth hithau.

Mae dyddiad ein cyfarfod nesaf wedi newid i Ionawr 21ain, gan y byddwn yn ymweld â Chanolfan Pontio ym Mangor yng nghwmni Gwen Sion, y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu'r Celfyddydau, sydd hefyd yn un o drigolion y pentref.

Dyddiad arall i'w nodi yn y dyddiadur yw Chwefror 10fed, pryd y byddwn yn ymuno â

Changen Bethel i gael noson o flasus gwin yng nghwmni'r Parchedig Marcus Robinson, gyda'r elw yn mynd tuag at Ymchwil y Galon.

Dyweddio

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lowri Huws a Sion Llywelyn Jones, Preswylfa ar eu dyweddïad.

Llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau i Gwen Ackers a Gareth ar eu dyweddïad hwythau. Pob dymuniad da i chi a chroeso i'ch cartref newydd, Gwynant, Teras Glyn Afon, yma yn y Waun.

Dymuniadau gorau i Gwenan Mair, Stad Tŷ Hen ar ei dyweddïad â Llion o Gaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Diolch Dymuna Llion a Gwenan ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd y ddau ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

Pen-Blwydd Arbennig Dymunwn longyfarch Callum Hanks, Stad Dôl Erddi, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Hefyd Catrin Heledd, Stad Tŷ Hen; Sioned Fôn, Ty'n Twll a Hugo Moss, Sunny Side, ar gyrraedd eu pen-blwydd yn un ar hugain mlwydd oed.

Pen-blwydd hapus i chi a dymuniadau gorau i'r pedwar ohonoch i'r dyfodol.

Yn Gwella Da deall fod Mared, Tŷ Awelog, yn gwella wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

Mae Mrs Nans Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun, hefyd yn gwella wedi iddi fod yn sâl yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion cynnes at bob un o'r pentref sydd yn gaeth i'w cartref oherwydd salwch ac i'r rhai sydd yn cael gofal mewn Cartref Preswyl.

Anfonwn gofion cynnes a chyfarfarchion Gŵyl y Nadolig at bawb a phob dymuniad da ar gyfer y flwyddyn 2016.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Trefeddyg yn eu profedigaeth a'u hiraeth o golli mam Gwenda, mam-yng-nghyfraith Eurwyn a nain annwyl i'r hogiau.

Eglwys y Waun

Croesawu Gŵyl y Nadoligaidd - Nos Iau, Rhagfyr 21: Noswyl y Nadolig am 4.30 y pnawn estynnir gwahoddiad cynnes i bawb ddod i' Eglwys y Waun i'r Gwasanaeth Nadolig. Bydd yn wasanaeth o gân a darlenniadau yng ngofal talentau a thrigolion y pentref. Gwneir casgliad tuag at Feddygfa Waunfawr. Dewch i ymuno yn naws y Nadolig.

Gwasanaethau yr Eglwys am fis Ionawr 2016

- 3: Cyfarfod Gweddi
- 10: John Roberts
- 17: Anna Jane Evans
- 24: Parch Trefor Jones
- 31: Parch Gwynfor Evans.

Cyflwyno £935.00 i Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn

Roedd cyngerdd Nadolig elusenol Corau Caernarfon a'r Cylch yn Eglwys Fair Caernarfon yn llwyddiant ysgubol gyda phob tocyn wedi ei werthu a'r eglwys yn llawn dop. Aeth holl elw'r noson i Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn ac, yn ymarfer olaf Côr Meibion Caernarfon cyn y Nadolig, cyflwynwyd bwced o arian yn cynnwys £935.00 i Ruth Gilford, trefnydd lleol yr elusen. Meddai Ruth Gilford, "Diolch i bawb a gymrodd ran - Côr Meibion Caernarfon, Côr Cofnod, Côr Dre, y fflwytydd Megan Hunter, yr organydd Steven Parry a'r darllenwyr oll. Bydd yr arian yn hwb mawr i'n gwaith o ofalu am gleifion gyda chanser neu salwch sydd yn byrhau bywyd." Meddai Bryn Griffith, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon "Daeth Clwb Rotari'r dref i ben yn ystod y flwyddyn a chymerwyd drosodd y trefniadau gennym ni. Gweithiodd ein Is-Gadeirydd, Dafydd Jones, tu hwnt o galed i wneud yn siŵr fod y cyngerdd poblogaidd yn parhau." Meddai Dafydd Jones, "Roedd codi bron i fil o bunnoedd at Hosbis yn y Cartref yn gwneud y cyfan yn werth chweil."



PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Llongyfarchiadau i Wena Haf, Tan y Coed, Penisarwaun, ar enedigaeth mab bach, Tomi Lewis Green, ŵyr bach i Richie a Beth, gor-ŵyr i Ifor a nai i Gethin. Croeso mawr, Tomi bach!

Eglwys Santes Helen

Trefn gwasanaethau a gweithgareddau'r Nadolig Gwasanaeth Naw Llith a Charol: Dydd Sul, Rhagfyr 20fed am 11 y bore. Gwneir casgliad rhydd tuag at Gronfa Achub y Plant Cymru.

Eglwys Agored

Dydd Mawrth, Rhagfyr 22ain o 3 y pnawn hyd 7 yr hwyr Estynnir croeso cynnes i bawb alw i mewn i'r Eglwys i oleuo kannwyll yng ngolau y goeden Nadolig i gofio am anwyliaid, cleifion, milwyr, teulu, yr unig, personau sydd ar goll, y digartref, tlodion, gwledydd mewn argyfwng neu unrhyw achos personol arall.

Bydd carolau poblogaidd Cymraeg yn cael eu chwarae yn y cefndir. Darperir paned o de neu goffi a mins pei am ddim.

Noswyl Nadolig

Dydd Iau, 24 Rhagfyr. Gwasanaeth Preseb am 11 y bore

Gwasanaeth Cymun Bendigaidd y Nadolig am 9 yr hwyr

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno yn y dathlu ac fe ddymuna swyddogion Eglwys StHelen a thimgweinidogaethu Ardal Gweinidogaeth Eryri fendithion y Nadolig i bawb.

Pwyllgor Neuadd Dymunir atgoffa aelodau ffyddlon Clwb Cant yr adnewyddir yr

aelodaeth ddechrau Ionawr. Croeso cynnes i aelodau newydd am £6 y flwyddyn.

Cynhelir pnawn i ddathlu'r Nadolig ddydd Llun, Rhagfyr 21ain, am 2 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Ceir eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau'r Pwyllgor a chyfle i ganu'r hen Garolau. Bydd mins pei a phaned a chyfle i gymdeithasu ar y diwedd. Croeso i chwi rieni a phawb yn y pentref i ymuno â ni. Bydd Raffl Nadoligaidd ar werth hefyd. Pris mynediad wrth y drws: £2.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Ionawr 2016 gyda Chyfarfod Blynyddol Eisteddfod Bentref i ddilyn.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul, Rhagfyr 6ed, croesawyd Andrew Settatee o Gynllun EFE atom a chafodd y plant hwyl ar wneud celf a chreffft Nadoligaidd. Dymunir diolch i Andrew am ei gyfraniadau drwy 2015 ac edrychir ymlaen am ei weld eto yn 2016.

Fore Sul, Rhagfyr 13 bu'r plant yn ymweld â Siôn Corn yn Llanberis a diolchir i Ffiona am wneud y trefniadau eto eleni.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar y Sul wedi i'r ysgol ailagor. Pob hwyl i chi, blant, dros y Nadolig.

Cyfarchion Nadolig Dymuna Nannie Evans, 26 Bryntirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dymuna Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

NOFEL NEWYDD YN ASTUDIO LLE MERCHED YNG NGHYMRU'R OESOEDD CANOL

Teitl

The Lost Welsh Kingdom

Dyddiad Cyhoeddi

23/10/2015

Pris & ISBN

£8.99

9781784611699


Awdur John Hughes

Ffon, ebost, gwefan 01686

413 407, 07547050932,

john@jhughes54.wanadoo.

co.uk



Mae nofel newydd sydd wedi ei hysgrifennu o safbwynt benywaidd yn ystod pennod gythryblus ond llwyddiannus yn hanes Cymru, pan oedd Cymru yn deyrnas annibynnol gyda'i Brenin a Brenhines ei hunan, yn trafod rôl merched yng Nghymru'r oesoedd canol.

Wedi ei gosod cyn ymosodiad y Normaniaid ar Loegr, yn ystod teyrnasiad Gruffudd ap Llywelyn (1039-1063), dyn treisgar, penderfynol ddaeth yn frenin ar Gymru gyfan, mae The Lost Welsh Kingdom yn dilyn bywyd merch ifanc o'r enw Elen. Caiff ei bywyd ei chlymu – a hynny yn erbyn ei hewyllys, gydag un o frenhinoedd mwyaf pwerus Cymru yn ei brif gastell yn Rhuddlan. A fydd Elen yn goroesi'r fath drallod? Neu a fydd hi'n cofleidio ei thynged?

'Mae'r nofel yn ceisio gwneud hanes yn fwy diddorol' eglura'r awdur, John Hughes. Ond, nid dyma'r unig gymhellant i John. 'Roeddwn eisiau archwilio rôl merched a'r diffygion truenus o wybodaeth sydd i'w gael ar ferched o fewn hanes Cymru'r oesoedd canol,' meddai.

Yn enedigol o Lanrug, fe astudiodd John Hughes gemeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd, cyn ennill PhD ar destun 'the Degradation of Polyurethanes'. Treuliodd chwech ar hugain o flynyddoedd fel pennaeth Ysgol Uwchradd Llanidloes ond ers ymddeol mae wedi dilyn ei ddiddordeb mewn hanes. The Lost Welsh Kingdom yw ei drydedd nofel, wedi iddo eisoes gyhoeddi dwy nofel hanesyddol arall, Glyndŵr's Daughter (2012) a Llywelyn (2014).

Un fydd yn siwr o apelio at y sawl sydd â diddordeb mewn ffuglen hanesyddol neu hanes Cymru, dyma nofel i'w darllen a'i thrysori.

RHOSTIO MOCHYN
 Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
 DEWCS MAE O'N FLASUS
 PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
 BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
 CIG O FFERMYDD LLEOL
 PARTION RHWNG 40-400!
 Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
 www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
 Symudol- 07798 718188

SAMARIAID
 Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
 ar gael bob nos
 rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

Nadolig Llawen a
 Blwyddyn
 Newydd dda oddi
 wrth bawb yng
NGHARTREF

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a
 Blwyddyn Newydd Dda
 oddi wrth
 Dave, Bobbie a staff y
GLYNTWROG
LLANRUG
671191
 Bwyd ardderchog
 am brisiau rhesymol
 Bydd croeso
 cynnes yma
 dros yr ŵyl



Angharad Joyce Jones 9e – wedi ennill y brif wobr drwy ogledd Cymru am ddylunio poster gwrth-yfed a gyrru drwy waith yr Adran Gelf – bydd un o uwch gynghorwyr Cyngor Gwynedd yn cyflwyno'r wobr ariannol iddi – da iawn hi.

Les Misérables



Les Misérables Fersiwn Ysgolion - Cynhyrchiad hynod lwyddiannus yn destun balchder mawr i ni i gyd yma yn Ysgol Brynrefail. Diolch i'r Urdd am y cyfle a'r profiadau anhygoel iddynt.



Cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Rotary – Catrin Gruffudd BI 13 enillodd yr Offerynnwr Gorau yn Arfon. Llongyfarchiadau mawr i Catrin. Roedd pawb wedi rhyfeddu at ei pherfformiad

Ymarferion Cymunedol Chwalfa wedi cychwyn

#Hawlifyw



Prif Ddisgyblion yr ysgol yn Cyflwyno Siec am £250 i “Hawl i Fyw” – Stephen Edwards yn ei dderbyn ar ran yr elusen.



Roedd festri Capel Jerwsalem, Bethesda yn llawn dop nos Fawrth 24ain o Dachwedd, pan ail-gychwynnodd ymarferion cymunedol Chwalfa. Dyma gynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Pontio a Chwmni'r Frân Wen a fydd yn cael ei berfformio ar lwyfan Theatr Bryn Terfel yng nghanolfan Pontio ym Mangor rhwng 17-27 Chwefror 2016. Mae dros hanner cant o drigolion ardal Dyffryn Ogwen a rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn rhan o'r cast cymunedol, ac yn y cast proffesiynol bydd yr actorion lleol Siôn Emyr, Llion Williams, Mark Flanagan, Morfudd Hughes, Gwenno Hodgkins, Lisa Jên Brown a llu o actorion eraill. Mae'r ddrama yn adrodd hanes Streic Fawr Chwarel y Penrhyn a'r awdur Gareth Miles, yn wreiddiol o'r Waunfawr, sydd wedi addasu nofel T. Rowland Hughes yn arbennig ar gyfer y cynhyrchiad hwn. Mae modd archebu tocynnau trwy Pontio ar www.pontio.co.uk / 01248 382828.



Derbyniodd Maer Caernarfon, Wil Lloyd Davies, stori gan ŵr fu yn faciwï ym Mrynrefail. Am fy mod i yn enedigol o’r pentref a Hywel wedi bod yn faciwï yn ymyl Amwythig ac ym Mhenmachno gyda’i nain cyn dychwelyd i Lerpwl, trosglwyddwyd y stori i ni. Dyma ychydig o hanes Philip Dorran, wedi ei fras gyfieithu, sy’n disgrifio’r cyfnod hwnnw fel “un o amseroedd hapusaf fy mywyd”.

Ym Medi 1939 daeth plismon i ysgol Philip i siarad am ryfel oedd ar fin digwydd gan ddweud y byddai’n rhaid iddyn nhw symud o Lerpwl dros dro. Cawsant restr o bethau oedd angen i fynd efo nhw gan gynnwys masg nwy du, hyll; darn mawr o bapur llwyd a llinyn; dau label i sgwennu eu henwau - un ar y parsel dillad a’r llall ar eu cotiau. Ymhen dau ddiwrnod roedd 200 o blant yr ysgol yn sefyll mewn rhes yng Ngorsaf Lime Street ynghanol cannoedd o blant o ysgolion eraill hefyd. Roedd rhai mamau yn crio ond yn sydyn chwibanodd y gard a ffrwd â nhw i fyd dieithr. Cyrhaeddodd Philip bentref Sandbach ger Caer ond doedd y teulu ddim ei eisiau a chafodd ei guro gan y wraig. Llwyddodd i sgwennu i’w fam, ddaeth i’w nôl adra. Ond gwaethygodd pethau yn Lerpwl a’r bomiau yn disgyn yn ddirugaredd felly daeth gorfodaeth iddo fentro eto i le diogel.

FFERM PENLLYN

“Y tro yma roedd 3 chefnider a chyfnither yn teithio efo fi. Mi gyrhaeddod ni Gaernarfon a’n hel i rhyw neuadd, ac roedd mamau a babis bach yno hefyd yn aros am lety. Yn wahanol i’r tro diwethaf roedd pawb yn siarad Cymraeg! Daeth 2 arall, Teddy Ralph a’i chwaer fach atom. Cafodd pawb ond y 7 ohonom ni eu dewis i fynd efo pobol i’w cartrefi. Doedd neb ein heisiau ni. Fel roeddem yn cychwyn i Ysbyty Eryri i aros dros nos daeth gwraig i mewn. Ar ôl siarad dywedodd dynes y WVS fod Mrs Roberts am gymryd 2 ohonom. Suddodd ein calonau. Ond ar ôl siarad eto, dywedodd, “Dim ond 2 oedd Mrs Roberts eisiau ond dydi hi ddim yn leicio gweld y pump arall heb unman i fynd ac mae wedi penderfynu cymryd pawb!” Ro’n i’n crio o hapusrwydd wrth weld y wraig garedig efo calon mor fawr. Wna i byth anghofio hyn. “Come on my lovelies,” meddai ac allan â ni at gar a cheffyl hardd. Agorodd ddrws bach yn y cefn ac i mewn â ni efo’n parseli . “Gee up,” meddai’r wraig a dyma’r poni claerwyn yn trotian i le nad oedden ni yn medru ei ynganu: Brynrefail, Cwm-y-Glo. Am nefoedd o le. Cyn bo hir dyma ni’n croesi pont o flaen llyn hardd. Ar yr ochr arall roedd Fferm Penllyn. “Rydan ni wedi cyrraedd,” meddai Mrs Roberts. I mewn yn y tŷ roedd y plant, Bobbie oedd yn bymtheg oed a Grace oedd yn naw, a Mary’r forwyn, hogan o’r pentref yn gwenu arnom ni. Yno hefyd roedd ei gŵr, Tommy Roberts, ond doedd o ddim yn edrych yn hapus yn gweld saith o blant wedi cyrraedd yn hytrach na dau! Y peth cyntaf ddangoswyd i ni oedd y toiled, sefbwced ddrewllyd a sêtbren! Gwaith Tommy oedd ei gwagio unwaith yr wythnos ond byddai’n rhaid gwneud hynny dipyn amlach rŵan efo 7 arall yn y tŷ a hwyrach mai dyna pam nad oedd o’n edrych yn rhy glên!

CROESO’R TEULU

“Dwi’n cofio’r noson gyntaf hapus yma a’r swper bendigedig roddodd Mrs R i ni. Roedd yn sgwrsio a’n gwneud yn gartrefol efo cwestiynau am ein teulu fel, “Faint o blant sy yn eich teulu? Be ydi gwaith eich tad? Pa grefydd ydych chi?” Amser gwely daeth â phowlen fawr wedi ei llenwi efo dŵr poeth o’r tegell oedd yn ffrwtian ar y tân. Mi gawson ni slempian-cath a phasio’r lliain o un i un i sychu’n wynebau a’n dwylo. Dyma beth ddigwyddai bob nos ar wahân i nos Wener pryd y deuai’r bath sinc oedd yn hongian ar hoelen ar wal y tŷ llaeth i lawr i’w lenwi efo dŵr poeth. Byddai Mrs Roberts yn ein molchi fesul un, a gweiddi, “Nesa”. Wedyn i’n gwlaŵ â ni a chael cusan ar ein boch a’n siarsio i beidio siarad. Roedd y saith ohonom yn cysgu mewn llofft hir iawn. Wedyn byddai’n diffodd y canhwyllau.

Doedd dim trefniadau wedi eu gwneud i ni fynd i’r ysgol, felly roedden ni’n rhydd i chwarae ar y bryniau a thaflu cerrig i Lyn Padarn neu rwyfo ar y llyn. Ond dim chwarae oedd y dyddiau i gyd. Rhoddai Mrs Roberts jobsys bach i ni. Mi ddysgodd fi sut i hel y tair buwch, dau lo bach ac ychydig o stôrs. Roedd Philip fy nghefnider, Teddy a’i chwaer yng ngofal y caniau llaeth, a’r genod eraill yn bwydo’r ieir, hel yr wyau a chlrïo’r llofftidd. Doedd hyn yn ddim o’i gymharu â’r caredigrwydd mawr roedden ni’n gael. Pan âi Mrs Roberts i’r dref byddai’n dod â phresant bach i ni fel teisen neu dda-da. Roedd nos Sadwrn yn noson sbesial. Mi fydden ni yn croesi’r bont a neidio ar y bws i fynd i Lanberis i’r pictiwr. Dwi’n cofio y deg ohonom ni yn crio trwy’r ffil “Proud Valley” efo Paul Robeson yn actio ynddi.

Gweithiai Tommy Roberts yn galed yn y chwarel i’n cadw i gyd. Ar ddydd Iau

byddai’n rhedeg adra ar ôl dod o’r bws chwarel, gwisgo ei ddillad gora oedd yn barod iddo, molchi’n sydyn a dal y bws i Gaernarfon. Roedd wedi ei anafu yn y Rhyfel Mawr a dyma’r diwrnod i godi ei bensïwn rhyfel a’i wario ar gwrw. Deuai yn ôl yn feddw a blin ond erbyn y bore a phob noson arall roedd yn sobor fel sant!

YSGOL BACH ac YSGOL DEINIOLEN

Ymhen ychydig wythnosau roedd trefniadau wedi eu gwneud i ni fynd i’r Ysgol Fach yn y pentref a dyna ddiwedd ar y rhyddid a’r amser braf yn y wlad. Roedd hyn fel mynd yn ôl mewn amser achos roedden ni’n sgwennu ar lechen efo carreg nadd. Cymraeg oedd y brif iaith ac roedden ni’n teimlo yn wahanol i’r plant eraill.

Daeth dyn i’r ysgol i’n mesur i gael cotiau glaw a chlocsia. Cotiau cyfnas oedden nhw efo belt llydan ac ro’n i’n teimlo fel ditectif, os nad edrychwn ar fy nhraed mewn clocsia! Dywedwyd ein bod i fynd at y crydd lleol i gael bariau haearn arnyn nhw bob hyn a hyn. Dillad faciwis oedd rhain a doedd y plant eraill ddim yn gwisgo run fath â ni. Ymhen tipyn roedd rhaid i ni symud i’r Ysgol Eglwys yn Neiniolen a cherdded drwy’r creigiau bob dydd. Gan ein bod yn Babyddion roedden ni’n cael gwasanaeth yn y lle biliards bob Sul a rhaid oedd cerdded eto a’r tro yma ar stumog wag gan fod angen mynd i’r Offeren cyn bwyta. Ond y newydd da oedd ein bod yn mynd i dŷ crand Dr Marren wedyn i gael cig moch, wy, pwddin gwaed a thatws oedd yn cael ei weini gan forwyn fach ddel.

CYNHAEAF GWAIR

“Dwi’n cofio dyddiau’r cynhaeaf gwair yn glir. Roedd y cymdogion yn dod i helpu a ninnau yn cribinio gan fwyaf. Roeddwn i wrth fy modd cael fy newis i arwain y ceffyl weithiau. Byddai Mrs Roberts yn gweiddi, “Amser te” a phawb yn mwynhau teisennau, jam mefus, teisen gri, peis cig a phaned yn y cwpanau gorau. Ar ddiwedd y dydd roedd pawb yn eistedd wrth y gwrych yn gwrando ar storïau’r dynion, tra roedden nhw’n smocio ac yfed seidar.

Weithiau, roedd Mrs R yn gofyn i ni fynd i Siop Stesion i wneud neges. Yng Nghastell Bryn Bras roedd lleiandy adeg y rhyfel ac roedden ni’n cael mynd yno am de ambell dro. Mi welson ni bobol ddieithr yn tynnu lluniau’r Wyddfa, ac roedden ni’n meddwl eu bod yn sbeis, felly mi aethon ni at y plismon lleol. Cof arall ydi mynd i’r parlwr at y piano i ddysgu caneuon Cymraeg fel “Ar hyd y Nos ” efo Mrs Roberts, oedd yn gantores dda.

TRIP I LERPWL

“Un diwrnod dywedodd Mrs Roberts ein bod yn mynd am drip, ond doedd hi ddim yn dweud i le. Mi aethon ni ar fws i Gaernarfon, a thrên wedyn. Ymhen hir mi gyrhaeddod ni Central Station Lerpwl. Am syrpreis. Wedyn mi aethom ni ar fws rhif tri i’r Dingle a cherdded adra. Roedd Mrs Roberts mor ffeind wedi trefnu hyn ond ar ôl gweld mam a chael diwrnod braf roedd rhaid mynd nôl yr un noson. Roedd gynnon ni fwy o hiraeth wedyn. Wedi tua dwy flynedd daeth diwedd y rhyfel a phawb yn mynd adra yn eu tro. Fi oedd yr olaf i fynd a chael fy nifetha gan Mrs Roberts oedd yn andros o ffeind.”

AR ÔL Y RHYFEL

Ar ôl gadael yr ysgol aeth Philip i’r môr gan forio o gwmpas y byd. Byddai yn sgwennu i Mrs Roberts i ddweud ei hanes a disgrifio’r llefydd rhyfeddol. Ymhen blynnyddoedd, ar ôl priodi a chael plant ei hun, aeth â’r teulu yn ôl i Fferm Penllyn. Roedd tipyn o newid a Tom druan wedi marw ond cafodd groeso mawr gan Mrs Roberts a bwyd ardderchog fel yn yr hen ddyddiau. Gwelodd Bobby a’r teulu oedd wedi troi’r beudai yn gartref cysurus. Meddai Philip, “Wrth edrych o gwmpas y stafell roeddwn yn ôl yn yr amser hapus fel faciwï a gwelais fod y pren menyn efo llun alarch yn dal ar y silff. Roedd yn anodd dweud ffarwel wrth wraig oedd wedi goleuo ein bywydau ynghanol tywyllwch. Teimlai fy nheulu hefyd fod Mrs Roberts yn berson arbennig, yn wir hi oedd fy angel gwarcheidiol.”

Erbyn hyn mae Philip Dorran yn byw yn Sir Benfro ac mae’n awyddus i ddod nôl eto i’r ardal. Cefais wybodaeth gan Lowri fod rhai o’r teulu yn byw ym Methel. Dywedodd Eirlys Williams Tai Minffordd mai Rodney, ŵyr Bobby oedd yno a bod Neil yr ŵyr arall yn dal ym Mhenllyn. Felly dyma fynd i gyfarfod Neil, oedd wrth ei fodd cael copi gwreiddiol o’r stori. Ers hynny cefais sgwrs deimladwy gyda Philip ar y ffôn a llenwodd rai bylchau yn y stori wreiddiol. Bu ei wyres Molly ym Mhenllyn ychydig flynyddoedd yn ôl a chael gweld ble’r oedd ei thaid yn byw adeg y rhyfel.

Os oes rhai o bobol Brynrefail neu Ddeiniolen yn cofio Philip a’r faciwis eraill yn yr ardal gellwch gysylltu â fi ar Caernarfon 672757. Mae copi o’r stori, yn Saesneg, wedi ei throsglwyddo i’r Archifdy ac mae copi ar gael i unrhyw un o’r teulu.

Margaret W Roberts, Caernarfon, (Bryn Madog gynt)

Dathlu llwyddiannau Siarter Iaith Gymraeg

Ers 2011, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn datblygu cynlluniau arloesol i hyrwyddo ac annog defnydd plant o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

Fel rhan o waith 'Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd', mae'r Cyngor wedi datblygu pecyn o adnoddau ac wedi sefydlu trefn o gydnabod a gwobrwo ymdrechion ysgolion wrth iddynt anelu am statws efydd, arian neu aur y siarter.

Mae holl ysgolion cynradd y Sir wedi bod yn rhan o gynllun y siarter i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Diolch i ymdrechion plant, staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion yma, mae pob ysgol bellach yn gweithio tuag at neu wedi cyrraedd statws a gofynion y wobwr arian neu'r aur. Yn ddiweddar, mae sawl seremoni wedi ei chynnal ar draws y sir i gydnabod ymdrechion disgyblion cynradd Gwynedd.

Dywedodd y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd:

"Nod syml y Siarter Iaith ydi annog a chefnogi plant Gwynedd i ddefnyddio eu Cymraeg – nid yn unig yn y dosbarth ond ym mhob agwedd o'u bywydau."

Ychwanegodd Gwenan Ellis Jones, Cydlynnydd Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd:

"Yn y cynllun mae pob ysgol yn gosod ei gweledigaeth ei hun – mae hyn yn allweddol bwysig oherwydd yr amrywiaeth ieithyddol o gymuned i gymuned."

Yn sail i'r cyfan, mae'r egwyddor syml fod llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad staff, rhieni a llywodraethwyr yn ogystal wrth gwrs a'r plant eu hunain wrth iddynt gyrraedd at y nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg."



Disgyblion ysgolion ardal Eco'r Wyddfa yn derbyn tystysgrifau Siarter Iaith Gymraeg gan y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg a'r Cyngorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd Cyngor Gwynedd

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
E-bost- lisa.huw@btinternet.com

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyrr

Antur Waunfawr yn ennill dwy wobwr genedlaethol..... Gwobr Menter Gymdeithasol y Flwyddyn



Roedd Antur Waunfawr yn dathlu mis diwethaf, ar ôl cael ei enwi yn Fenter Gymdeithasol y Flwyddyn yn seremoni wobrwyo gyntaf Cynnal Cymru yng Nghaerdydd.

Cynnal Cymru yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw ar gyfer datblygiad cynaliadwy yng Nghymru, gyda mwy na 12 mlynedd o brofiad o gefnogi newid ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Cynhaliwyd y seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm o flaen cynulleidfao fusnesau cenedlaethol a rhyngwladol, a hyrwyddwyd cynaliadwyedd yng Nghymru. Roedd y gwobrau yn gyfle i wobrwyo

a thynnu sylw at y pethau gwych mae pobl a sefydliadau yn ei wneud o ran datblygiad cynaliadwy.

Agorwyd y seremoni gan Hallam Amos, chwaraewr o undeb rhyngwladol rygbi Cymru a'r Dreigiau Casnewydd Gwent. Gyda'i ddiddordeb cryf mewn cynaliadwyedd a'r manteision y gall chwaraeon greu mewn cymdeithas, roedd Hallam yn westai addas i agor y seremoni. Mae Hallam yn credu bod diwylliant yn rhan bwysig o gynaliadwyedd a bod chwaraeon yn rhan enfawr o ddiwylliant Cymru - rygbi yn arbennig.

Mae'r seremoni am fod yn ddigwyddiad gwych yn y calendr Cymreig. Meddai Derek Osborn, Cadeirydd Cynnal Cymru: "Mae'n amser cyffrous i Gynnal Cymru gyda'r gwobrau yn cael eu cefnogi gan sefydliadau o fri o Gymru a thu hwnt. Roedd yn noson o ddathlu, a gobeithiwn y bydd yn cael ei ddilyn gan flwyddyn o gydweithio. 'Rydym i gyd yn edrych ymlaen at yr hyn a allai ddod o'r sefydliadau ac unigolion gwych yma'n gweithio gyda'i gilydd."

Dywedodd Prif Weithredwraig Antur Waunfawr, Menna Jones: "Y llynedd, buom yn gweithio gydag Elizabeth Woodcock a thîm o bobl o Brifysgol Bangor i gynhyrchu adroddiad effaith. Ar ôl casglu'r holl ddata sy'n dangos ein harferion cynaliadwy, penderfynodd Elizabeth ein henwebu ar gyfer y wobwr hon, ac rydym wrth ein boddau ein bod wedi ennill!"

Antur yn ennill unwaith eto!

Roedd menter gymdeithasol leol Antur Waunfawr yn dathlu unwaith eto ar ôl ennill gwobr arall, tro yma yn seremoni Hybu Annibyniaeth Cymorth Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar ddechrau mis Rhagfyr.

Ar ôl cael ei henwi'n Fenter Gymdeithasol y Flwyddyn yng ngwobrau Cynnal Cymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd, roedd Antur wrth ei bodd yn derbyn anrhydedd arall, y tro hwn gan gydnabod ei rhagoriaeth mewn Byw â Chymorth a Gofal.

Cymorth Cymru yw'r corff ymbarél ar gyfer darparwyr digartrefedd a chefnogaeth gysylltiedig â thai, a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gwobrau Hyrwyddo Annibyniaeth yn ddigwyddiad a drefnwyd ar y cyd gan Cymorth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru, sy'n cydnabod arloesedd a rhagoriaeth yn y sectorau hyn.

Cyflwynwyr y noson oedd Gethin Evans o'r elusen leol GISDA, a Tony Garthwaite o Brifysgol De Cymru. Siaradwr gwadd arbennig oedd Mark Colbourne MBE, cyn feiciwr-Paralympaidd Cymru.

Dywedodd Brif Weithredwraig Antur Waunfawr, Menna Jones: "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi ennill y wobwr bwysig yma, ac ein bod yn cael ein cydnabod am y gwaith yr ydym yn ei wneud i gefnogi a galluogi oedolion bregus i fyw'n annibynnol. Mae ein staff yn gweithio'n ddyn i sicrhau bod pob unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth gan Antur yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau, ac i symud ymlaen, ac rydym yn falch iawn o lefel y gofal a'r gefnogaeth



rydym yn ei gynnig."

Am dros 30 mlynedd, mae'r Antur wedi darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, ac ar hyn o bryd maent yn cefnogi dros 60 o unigolion o fewn Gwynedd.

Gweithdy Mosaig ?

Er fod y Nadolig bron ar ein gwarthaf, beth am feddwl ymlaen i'r flwyddyn newydd. A'r Wyl gyntaf i'w dathlu yn Ionawr fydd Dydd Santes Dwynwen. Be'n well felly na chreu mosaig o galon ar gyfer eich cariad? Diddordeb?

Mae Mel Roberts yn cynnig dau weithdy hanner diwrnod yr un i'ch galluogi i gynllunio a chreu mosaig. Bydd y gweithdai yn cael eu cynnal ar y 13eg a'r 14eg o Ionawr rhwng hanner awr wedi naw y bore a hanner dydd, mewn lleoliad i'w drefnu yn ôl y galw am le. £15 yn unig yw'r gost, ac mae'r holl ddeunydd a'r hyfforddiant yn rhan o'r pris. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Mel ar 07516495452.



Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb a ddaeth i gyfarfod cangen Llanrug ar nos Fawrth Tachwedd 10ed gan y Llywydd, Menna, a rhoddodd groeso arbennig i ddwy aelod a dderbyniodd driniaeth feddygol yn ddiweddar, sef Mary Parry a Helen. Cydymdeimlwyd â Margaret Christian ar golli ei mam. Anfonwyd cofion at Mair Huws a gafodd anaf fel canlyniad i godwm yn y tŷ. Nodwyd hefyd fod Islwyn, gŵr Eryl, wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar. Longyfarchwyd Heulwen ar enedigaeth ei hwyres, Myfi.

Yna 'roedd nifer o gyhoeddiadau i'w darllen. Anfonwyd gwahoddid gan gangen Bethel i ymuno â hwy mewn noson blasu gwin gyda'r Parch Marcus Robinson ym mis Chwefror gydag elw'r noson yn cael ei gyfrannu tuag at Ymchwil y Galon. Derbyniwyd cais am enwebiad ar gyfer swydd Is-Ysgrifennydd Cenedlaethol y Mudiad. Derbyniwyd taflen wybodaeth am frechiad rhag y ffliw sydd yn rhad ac am ddim i rai dros 65 oed, merched beichiog, rhai sy'n dioddef o gyflyrau cronig, a.y.y.b. Mae angen cyflwyno unrhyw sylwadau ar y ffaiith i Tegwen dderbyn anrhydedd MBE cyn 12ed Chwefror. Derbyniwyd apêl gan Gwyn Angell Jones am nawdd ariannol tuag at yr uned famolaeth yn Ysbyty Jowai yn yr India. Cynhelir perfformiad o'r ddrama Difa gan Theatr Bara Caws yn Galeri, Caernarfon, ar 26ain a 27ain Tachwedd. Cynhelir cyfarfod i sefydlu Clwb Gwawr yn ardal Llanberis. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y gangen tuag at Eisteddfod Bentref Penisarwaun.

Y wraig wadd oedd Carol Llewelyn Jones, Bryn, Pwllheli. Mae'r teulu Jones wedi cynhyrchu jam, siytni a mwstard am 45 mlynedd. Ym 1982 syrthiodd Carol mewn cariad â John Jones, neu John Jam i'w gydnabod, ac ar ôl iddynt briodi 'roedd hithau

yn Carol Jam. Bu'r ddau ym Mhrifysgol Manceinion ac yna'n gweithio yng Ngogledd Lloegr cyn dychwelyd i Ben Llŷn i weithio yn y ffatri jam. Mae'r cwmni wedi ennill llawer o wobrau dros y blynyddoedd, yn cynnwys dwy Supreme Champion yng nghystadleuaeth "Tâst Arbennig Cymru". Mae'r cynnyrch yn cael ei wneud yn y ffordd draddodiadol drwy ddewis y cynhwysion yn ofalus a'u coginio mewn sosbenni agored â gwaelod copr iddynt. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu drwy Cymru, Lloegr a'r Alban ac fe'i hallforir hefyd i wledydd megis yr Unol Daleithiau, Ewrop, Canada ac Awstralia. 'Roedd Carol newydd deithio o Gaerdydd cyn dod i Lanrug lle bu'n derbyn gwobr gyntaf mewn cystadleuaeth a gynhelir gan The Guild Fine Foods am lemon curd ac hefyd am jam chili. Rhoddodd rai syniadau inni feddwl amdanynt, megis gweini jeli mintys gydag eog, y modd mae jeli cyrens coch yn gwneud grefi neu saws blasus. Mae'r cwmni wedi derbyn cais gan siop rwysgfawr Harrods i ddatblygu jeli quince sy'n brawf pellach fod ganddo enw da.

Daeth Carol ac ystod eang o'r cynnyrch gyda hi, megis siytni betys, marmalêd nionyn, siytni datys a ffigys, siytni cwrw, siytni afal Bramley, jam chili, siytni tomato sbeislyd a chafodd pawb y cyfle i'w blasu ac hefyd i brynu. Roedd pawb wrth eu bodd yn bwyta ac yn trafod ac yn gweld y noson yn gyfle i brynu ambell anrheg Nadolig.

Bu Iris, Ann Lloyd a Meirwen yn gyfrifol am wneud y baned ac enillwyd y wobr raffl gan Mary Parry.

Cafodd pawb dasg i feddwl
amdano ar y ffordd adref, sef
ym mha fodd y dylai'r cwmni
ddathlu ei ben-blwydd yn
hanner cant.

Ar 8ed Rhagfyr bydd
aelodau'r gangen yn dathlu'r
Nadolig yng Ngwesty'r Celt,
Caernarfon.

Gwasanaethau Rhagfyr

6: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson. Gweinyddir y Cymun

13: Mrs Nerys Griffith

20: Gwasanaeth Nadolig y Plant

27: Cyfarfod Gweddi

Cydymdeimlad Yn 92
mlwydd oed bu farw Mrs Annie
Owens, 12 Corlan y Rhos, gynt
o Lanllyfni. Roedd yn gymeriad
hoffus iawn ac wrth ei bodd
yn sgwrsio gyda ymwelwyr i'r
cartref.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant
gyda'r plant, Beryl, Margaret a
Meirwen, Richard ei mab yng
nghyfraith, a'r holl wyrion a
wyresau a'i gor-wyresau.

Cydymdeimlad Wedi gwaeledd hir yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, bu farw Mrs Glenys Salisburry. Fe'i magwyd yn Tyddyn Alys ond yn byw ers amser maith yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn yn arw â'r plant, Dora (Tan y coed), Dewi a Sian a'u teuluoedd i gyd.

Diolchiadau Hoffai Maureen
Pierce, 14 Bryn Moelyn,
ddiolch i bawb am y cardiau
a'r anrhegion a gafodd ar ei
hymddeoliad. Hefyd diolch i
bawb am eu caredigrwydd yn
dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty
Gwynedd.


Diolch Hefyd, fe ddymuna Islwyn ac Eryl, 56 Glanffynnon, ddiolch i bawb am yr holl gymorth a gafwyd tra yn symud tŷ a'r caredigrwydd gwerthfawr yn ystod amgylchiadau anodd. Diolch hefyd am yr ymweliadau a chysylltiadau yn dilyn llawdriniaeth Islwyn yn Ysbyty Gwynedd.

Gwellhad Buan Yn dilyn
damwain yn ei gartref, treuliodd
Mr Arthur Jones, 12 Hafan Elan,
gyfnod yn yr ysbyty. ond mae



ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy



Pangyfansoddodd Gwallter Mechain ei englyn i'r Cyfnos, ychydig a feddyliai y byddai “caddug yn cuddio Eryri” ddau can mlynedd yn ddiweddarach yn cael ei gofrestru fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryng-genedlaethol. Mae'r “nos dywell yn distewi” uwchben Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei dynodi fel un o'r mannau gorau'n y byd i wylïo'r ffurfafen. Dyma'r degfed lleoliad yn y byd i dderbyn y fath statws gan y Sefydliad Gwarchodfa Awyr Dywyll sydd a'u canolfan yn Arizona, UDA. Cymru, felly, yw'r wlad gyda'r canran uchaf o'i hawyr wedi ei dynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll.

Dim ond deg ardal drwy'r byd i gyd sydd wedi derbyn y fath statws, a Chymru yw'r unig wlad gyda dau safle yn y rhestr, gyda Pharciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog yn golygu fod 18% o awyr Cymru yn Warchodfa Awyr Dywyll.

Mae cadw llygredd golau rhag effeithio ar safon tywyllwch yn hynod bwysig i gynnal bio-amrywiaeth, yn enwedig i batrymau byw creaduriaid y nos. Ond gall statws o'r fath hefyd fod o gymorth i'r economi lleol fel y daw mwy o ymwelwyr yma (y tu allan i amseroedd gwylïau arferol) i fwynhau'r cyfle i wylïo'r ser.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

▼
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

**DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

**CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL**



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

▼
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Dyma waith llenyddol buddugol Eilian Ffion Roberts, Enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Dau Ar Un Daith

Nid dyma sut oeddwn i wedi dychmygu fy nhaith olaf. Dwi’n siwr fod yna rhyw arwyddocâd a neges yn y ffaith fy mod i wedi cael y bws mwyaf trychinebus erioed i’m cludo. Ai dyma werth fy mywyd? Sylwaf ar ddim ond y seddi rhwygedig, y llawr gludiog a’r gyrrwr anghwrtais. Mae’r bws yn hanner gwag a’r tawelwch yn llethol. Dim ond un arhosfa i fynd yna caf adael popeth ar fy ôl.

Diolch byth! Dim ond hanner llawn ydi’r bws. Cerddaf yn araf lawr y canol gan ddadansoddi y posibilrwydd o eistedd wrth pob teithiwr. Na, does gen i ddim awydd eistedd wrth ymyl y fam a’i phlentyn swnllyd, gormod o swnian. Uch, dwi chwaith ddim am eistedd ger y belen o ddrewdod sydd tu ôl iddi. Mae ‘na sedd wag yn y cefn a does neb yno ar wahân i ferch ifanc, tua pymtheg. Dwi’m yn meddwl y bydd hi’n tarfu ar fy nhaith. Mae’r olygfa trwy’r ffenestr mor ddiflas, yr un peth pob diwrnod heblaw ei bod hi’n haul braf ddoe a heddiw mae hi’n bwrw hen wragedd a ffyn. Fedra i ddim canolbwyntio ar yr olygfa, na chwilio am yr hen wynebau cyfarwydd ar y stryd wrth basio heibio. Mae wyneb adfant y ferch yn cysgodi popeth ac yn mynnu tynnu fy sylw. Dydw i erioed wedi sylwi ar y ferch yma o’r blaen. Edrychaf arni’n sydyn, dwi’n cael fy synnu gan beth dwi’n ei weld. Llygaid llachar gwyrdd yn galaru unigrwydd a gwallt llipa yn disgyn dros ei chroen llwyd yn flêr. Beth sydd wedi achosi hyn a beth sy’n ei phoeni fel bod ganddi byllau glo o dan ei llygaid? Piti na fasa hi’n sylwi arna i, dwi’n trio fy ngorau glas i ddal ei llygaid hi.

Pwy ydi’r bachgen ‘ma? Does ganddo ddim rheswm i syllu arna i. Does neb yn sylwi arna i fel arfer heb sôn am barhau i syllu. Dwi’n eitha mwynhau ei sylw a dweud y gwir, ac yntau wedi dal fy llygaid yr eiliad y daeth o ar y bws. Roedd ei wên fach yn oleuni yng nghysgod y glaw tu allan. Mi fuaswn i’n troi fy mhen i edrych arno, mi fasa hi’n braf cael golwg iawn ohono ond dwi’n saff o gael fy siomi. Os ydw i wedi dysgu unrhyw beth dros y misoedd diwethaf yna i beidio ymddiried yn neb ydi hynny. Mae’n anodd iawn cael dy siomi pan does gen ti ddim disgwyliadau...

Mae ei llygaid hi mor bell i ffwrdd, mae hi i weld fel petai mewn rhyw fyd gwahanol, ond nid rhywle hapus. Dwi’n gallu clywed ei meddwl yn rasio yng nghuriad cyson y glaw yn erbyn ffenestr y bws. Dwi bron â marw eisiau siarad gyda hi ond dwi’m eisiau tarfu ar ei thawelwch.

Un siom ar ôl y llall. Nadolig, pen-blwydd, gwyliau’r haf a phenwythnosau. Sut gall mam fod wedi fy siomi gymaint? Dwi’n amau weithiau os ydi hi’n cofio am fy modolaeth. Tydi hyn ddim yn afresymol gan ei bod hi mor feddw drwy’r amser. Dwi wedi colli pawb dros y blynyddoedd. Dwi’m yn cofio’r tro diwethaf i mi gael sgwrs gyda neb. Does neb eisiau bod yn ffrindiau gyda’r ferch drist sydd methu fforddio dillad taclus a bwyd call i ginio. Neb eisiau fy ngwahodd i barti i’w cartref ar benwythnos. Yna, neb eisiau cael eu gweld o’r hamgylch. Neb am gael eu cysylltu gyda’r ferch dlawd a run rhiant am i’w plant fod yn ffrindiau gyda merch alcoholig. Nid fy mai i oedd hyn ond dwi wedi gorfod dioddef pobl yn siarad dan eu gwynt amdanaf, plant yn y maes chwarae yn galw enwau arnaf ac ambell i drawiad gan mam am fod adref dan ei chroen yn rhy aml. Dwi wedi cael llond bol ar hyn, does dim ar ôl i mi, neb sy’n poeni amdanaf a neb sydd am deimlo fy ngholled. Dwi wedi bod yn fyrdwn ar mam ers yr eiliad diflannodd fy nhad, dim fod gen i syniad pwy ydi o ac mae’n syndod os yw mam yn gwybod. Camgymeriad oeddwn i ac mae mam wedi llwyddo i wneud i mi deimlo fel un ers yr eiliad i mi fod digon hen i ddeall.

Beth ar y ddaear sy’n ei phoeni hi? Mae ei llygaid yn gorlifo gyda dagrau ers munudau a tydi hi heb symud unwaith i’w sychu nhw. Ydi hi wedi sylwi arnyn nhw? Mae hi i weld mor bell i ffwrdd yn ei meddyliau. Faint oed ydi hi? Pymtheg? Beth sydd ganddi i boeni amdano? Does gen i yr un broblem, ar wahân i waith cartref a rhieni oedd yn poeni llawer gormod, cwmpwl o flynyddoedd yn ôl. Mae gan hon broblemau llawer mwy na hyn. Mae hi’n edrych llawer mwy unig na neb arall ar y bws, er nad oes gan y mwyafrif o deithwyr y bws gwmni gyda nhw. Mae ‘na rywbeth yn ei hosgo a’i edrychiad sy’n sgrechian unigrwydd. Dwi ar bigau’r drain eisiau mynd yna i sychu ei dagrau a rhoi braich gysurus o’i hamgylch. Ydi hynny’n od? Wnaiff hynny ei dychryn hi? Dim ond un arosfan arall sydd yna cyn i mi fynd oddi ar y bws ‘ma felly os dwi am siarad gyda hi, rwan ydi nghyfle i... Pam fy mod i mor nerfus? Dwi’m fel arfer yn cael trafferth siarad gyda merched, ond mae hon yn wahanol.

“Um, haia”, ydi hi wedi fy nghlywed? Pa mor bathetig oedd f’ymdrechion? Gwarthus. Rhaid i mi drïo eto.

“Haia”, neu ella ddim. Mae ei llais mor dila a gwan.

“Ti’n iawn, dim fy mod i am fusnesu ond ti i weld wedi ypsetio rhyw ychydig”

“Dwi’n iawn diolch”, dwi’n cael trafferth clywed ei llais, mae hi mor dawel a mor sensitif. Codaf ar fy nhraed a symud i eistedd ar y sedd wag lle oedd ei bag. Symudaf fy mraich, mor lletchwith ag erioed, gan afael o’i amgylch yn dyner. Mae hi i weld yn fwy trist byth nawr fy mod i’n agosach ati, mae ei phen yn pwyso’n ysgafn ar fy ysgwydd a’r dagrau’n llifo fel na welis i neb yn crio fel yma o’r blaen.

Beth sy’n bod arna i? Dwi’m yn adnabod yr hogyn ‘ma digon da i siarad ag o heb sôn am ddisgyn i ddarnau ar ei ysgwydd. Mae hyn yn gywilyddus. Beth mae o’n ei feddwl ohona i nawr? Dwi heb deimlo fel hyn ers amser maith. Pryd gefais i freichiau cysurus o’r hamgylch i ddiwethaf? Pryd gofynnodd rhywun i mi os oeddwn i’n iawn? Pwy oedd y person diwethaf i boeni neu i feddwl amdana i?

“Dwi yma i chdi, paid a poeni, caria ‘mlaen i grio, dwi’m mynd i nunlle.” Mae hi fy angen i. Dwi’n ddieithryn iddi ond mae hi fy angen. Mae hynny mor drist. Beth ydw i am ei wneud? Bydd y bws yn dod i ddiwedd ei daith ymhen ychydig funudau. Beth ddigwyddith iddi os adawa i hi ar ei phen ei hun yn yr arosfan? Ai dyma lle oedd hi wedi bwriadu mynd? Welais i erioed mohoni o’r blaen a mae’r pentref yma’n fychan iawn. Mae hi i weld ar goll beth bynnag, mae hi wedi codi’i phen ac mae hi’n syllu drwy’r ffenestr mewn syndod.

Dwi wedi methu fy arosfan. Beth ydw i am ei wneud? Dwi ddim am fynd gartref. Does dim yno i mi. Doedd hyn ddim yn benderfyniad hawdd yn y lle cyntaf. Pan oedd raid i hwn symud ata i? Mae fy nghynllun ar chwâl nawr. Tydw i heb deimlo dim ond unigrwydd ac adfant ers blynyddoedd ond mae hwn wedi dod ag ysbeidyn o obaith i mi. Pam? Dwi’n gwybod mai cael fy siomi eto y gwnaf. Ond, beth os oes yna bwrpas i mi aros yma am ychydig hirach? Beth os oes yna rhywun yn meddwl amdana i? Ydi hi’n risg werth ei chymryd? Dwi’n meddwl ei bod hi. Ni fydd hi’n hawdd ond dwi’n meddwl bod bwrpas i mi gario ‘mlaen. Mae’n amser i mi rannu fy mhryderon gyda rhywun a gofyn am help.

Nid dyma sut oeddwn i wedi dychmygu fy nhaith olaf yn wir, gan mai nid hon fydd fy nhaith olaf.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580



Cofion Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ac wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri ac yn awr yn cael gofal ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Dymunwn iddi adferiad buan.

Sefydliad y Merched Bu tymor yr hydref ymhlith aelodau y gangen leol yn y Caban yn eithaf prysur. Cafwyd cyfle i groesawu Mrs Anita Butler i roi hanes ei thaith i Rwsia ac a oedd yn rhoi sylw arbennig i hanes adeiladau o bwys. I edrych ymlaen at Wyl y Nadolig roedd cael cwmni Mrs P. Ann Jones yn paratoi gwahanol fathau o siocled yn brofiad buddiol. Diddorol oedd gwrando arni yn egluro a dangos sut i ddatblygu'r gwahanol liwiau a blas er mwyn gwneud bocs o siocledi amrywiol ar gyfer y Nadolig.

Yn y Cyfarfod Blynnyddol trafodwyd gwaith y

swyddogion am y flwyddyn a chyflwyno'r adroddiad ariannol. Cafwyd arolwg o'r cofnodion, trafod dewisiadau a gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. I ddiweddu'r noson cafodd pawb gyfle i wneud addurn Nadolig 'decoupage' dan ofal y Llywydd, Pat Jones.

Bu nifer o gyfarfodydd hefyd tu allan i'r Caban. Cafwyd noson werth chweil yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis gyda Bingo Nadolig a chawl a chacen dan ofal Maggie ac Ann. Mynychodd nifer o'r aelodau Gyngor Hydref y Ffederasiwn lle cafwyd adloniant arbennig gan Seindorf Ieuencid Deiniolen. Mwynhawyd hefyd y cyrsiau undydd ym Mhlas Tanybwllch - gosod blodau mewn cerdyn dan ofal Pat, gwneud siocled gyda Anita a gweithio gyda gwydr lliw i wneud addurniadau coeden Nadolig dan ofal Julie. Edrychir ymlaen yn awr at noson y Cinio Nadolig yn y Gaerwen Arms.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Ionawr 2016 am 5 yr hwyr

- 3: Gwasanaeth Carolau Gŵyl yr Ystwyll yng Nghapel y Rhos, Llanrug ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru
- 10: Cyfarfod Gweddi Blwyddyn Newydd
- 17: Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail
- 24: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon
- 31: Mr Euron Hughes, Dolgellau

Cyfarchion Ar derfyn blwyddyn unwaith eto dymunwn anfon ein cofion cynhesaf at nifer o'n haelodau na fu'n dda eu hiechyd yn ystod 2015 - dau o'n blaenoriaid - Jennie Angharad Roberts sy'n cael gofal arbennig gartref ac ym Mhlas Pengwaith a Bertie Roberts yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i'n haelodau a'n cydnabod oll.

Y Ddrama Fawr

Daeth Gŵyl y Nadolig unwaith eto a chawn ein hatgoffa o hynny drwy'r llu hysbysebion a'r anrhegion o bob math yn y siopau. Clywir atsain y carolau ar gorneli y strydoedd a bydd plant wrthi'n brysur yn perfformio mewn cyngerdd a drama. Mae rhyw ysbryd arbennig i Wyl y Geni a chawn bobl mewn gwên, er cwyno fod popeth mor ddrud a phawb mor ofnadwy o glên. Wel, dyma i chwi hanes a glywais beth amser yn ôl am Ddrama y Geni a gynhaliwyd un tro mewn eglwys ar Ynys Môn. Penderfynwyd fod plant yr Ysgol Sul i gynnal drama yn adrodd hanes geni'r Iesu. Daeth y newyddion hwn i glust Esgob Bangor ar y pryd, a phenderfynodd fynd i wyl y ddrama, i ddangos cefnogaeth i'w aelodau o'r eglwys.

Ar noson neu ddwy cyn dydd y Nadolig cynhaliwyd y ddrama yn neuadd yr eglwys. Roedd yn noson oer, yr eira yn blanced wen ysgafn tros y tir a'r sêr fel perlau cain yn disgleirio tan orchymyn y lloer ar gwrlid meddal yr wybren.

Cyrhaeddodd yr Esgob mewn pryd ac yr oedd yr hen neuadd fach wledig yn orlawn o bobl yn siarad a sgwrsio tra roedd y plant yn darparu eu hunain ar gyfer yr actio, dan ofal athrawon yr ysgol Sul.

Ar flaen yr ystafell, gerllaw i'r llwyfan, yr oedd Cadair yr Esgob ac aeth yntau i lawr iddi gan gyfarch hwn a'r llall. Oedd, yr oedd pawb yno yn gwybod y caent wledd gan y plantos.

Ond, yr oedd un fam ifanc gartref yn teimlo'n drist a siomedig. Ni lwyddodd i gael neb i wyl y Geni ei baban tra y byddai hi yn y ddrama. Yr oedd pawb, wrth gwrs, yn y ddrama. Yr oedd ei baban yn cysgu yn braf yn ei grud (carry cot). Gafaelodd y fam yn y crud ac aeth gyda'i baban i neuadd yr Eglwys. Llwyddodd i gael man i eistedd mewn cadair ar ymyl y llwyfan a rhoddodd y crud yn ysgafn ar y llwyfan ei hunan.

Yr oedd y perfformio yn rhagorol. Mair yn eistedd mewn dilledyn glas, a Joseff yn gefn iddi ger y preseb oedd yn orlawn o wellt euraid. Mor rhwysgafwr oedd y tri gŵr doeth a'u anrhegion drud i'r Baban. Hwytiau'r bugeiliaid yn dawel a charedig, a Gabriel a'r angylion eraill yn canu mor swynol. Nid oedd golwg o Herod ei hunan ond fe soniwyd amdano gan un o'r doethion. Yr oedd y ddrama bron ar orffen pan ddeffrodd y baban yn ei grud gan grio a chwifio ei ddwylo bychain. Pan welodd un o'r angylion hyn rhuthrodd i ymyl y llwyfan gan weiddi ar ei nain oedd yn y gynulleidfa, Nain, nain, gwaeddodd gan bwyntio i'r crud, 'Mae Iesu Grist yn fyw, go iawn.'

Aeth y gynulleidfa yn fud gan syndod, ond gwelodd yr Esgob ei gyfle. Diolchodd i'r holl blant am eu gwaith ar y llwyfan, yna dywedodd i'r noson fod yn fendithiol gan mai nid cymeriad mewn chwedl yw yr Arglwydd Iesu, ond yn hytrach person byw yn yr ysbryd.

Carwn innau ddymuno Nadolig llawen i chwi yn ysbryd yr hanes hynod o Sir Fôn.

John H. Hughes

CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol

Pob math o waith
cynnal a chadw
- mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol:
07918733510
e-bost: kevindavies6287@gmail.com

BETHEL Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Clwb Bro Bethel Daeth nifer dda o'r aelodau i Goleg Menai ym Mangor y mis yma a hynny i fwynhau cinio Nadolig blasus iawn. Braf oedd cael cyhoeddi bod y Clwb wedi derbyn grant o £136 gan Age Cymru tuag at weithgareddau dros y Nadolig, ac fel canlyniad talwyd am gostau'r bws a raffl i bawb yn unol â chanllawiau y cais gan Age Cymru.

Diolchwyd i Anne Elis a Mary Wyn am ymgymryd â'r holl drefniadau ac i fyfyrwyr y Coleg a'r staff am weini ar bawb mewn modd proffesiynol iawn.

Ni fydd cyfarfod ym mis Ionawr felly cawn gweld ein gilydd eto yn Chwefror.

Pob hwyl dros yr Ŵyl.

Dymuna Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Diolch Dymuna Anne Williams, Tynrardd, ddiolch i'w

theulu a'i ffrindiau am y cardiau ag anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 70 oed.

Diolch Dymuna Selwyn Morris a'r teulu ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl, sef Catherine Morris. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd at Feddygfa Waunfawr.

Clwb Bowlio Mae Clwb Bowlio Dan Do wedi ei sefydlu ym Methel. Mae'r aelodau yn cyfarfod yn y Neuadd Goffa bob dydd Mercher am 1 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno.

Diolch Ar ran Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw, Ysbyty Gwynedd, dymunwn ddiolch yn fawr i drigolion y pentref a'r cylch am eu haelioni a'r gefnogaeth i'r noson Blasu Gwin yn y Neuadd ar Dachwedd 13. Diolchir i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson am noson arbennig iawn. Fe godwyd £525.41 at y

gronfa lleol yma.

Cymdeithas Lenyddol Noson Nadoligaidd oedd ar y rhaglen y mis yma a hynny gyda'r aelodau yn cymeryd rhan. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd Dr J. Elwyn Hughes a diolchodd yntau i Glenys am drefnu'r noson. Thema'r cyfan oedd GOLEUNI a chafwyd

darlenniadau a cherddi pwrpasol i gyd fynd â'r thema. Braf oedd cael croesawu dwy o ferched ifanc y pentref, sef Gwenllian Griffiths a Heledd Prys, i ganu dwy ddeuawd gyda Gethin Griffiths yn cyfeilio iddynt ac hefyd i'r canu cynulleidfaoel. Cyn troi am adref bu i bawb fwynhau lluniaeth ysgafn.

Merched y Wawr

Dathluodd y gangen y Nadolig eleni ym mwyty Bryn Teg, Llanrug. Darparwyd bwyd blasus a weinwyd yn hwyliog mewn awyrgylch Nadoligaidd a mawr fu'r mwynhad. Cafwyd cwis arbennig ar gyfer y noson gan Mair ac Anita a'r enillwyr oedd Mair Price, Delyth, Ellen ac Alys. Mawr fu'r chwerthin wrth ddyfalu cyfrinachau'n gilydd, a darganfuwyd fod aelodau wedi ymwneud mewn gweithgareddau difyr, o gerdded wal China

i farchogaeth camel a mynd i drafferthion gyda'r heddlu yn Efrog Newydd. Enillwyr y raffl oedd Anne, Jen a Rhian. Llongyfarchwyd Nan ar ddod yn nain i Siwan Marged a chydymdeimlwyd â Lisabeth, Blaen Parc, a'r teulu ar golli gŵr a thad annwyl.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ionawr 13eg pan fyddwn yn croesawu Elen Lloyd Jones i sôn am ategolion Nel.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda.

CWMYGLO

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Selwyn Morris, Becws, yn ei brofedigaeth lem o golli ei briod, Catherine, mam arbennig Susan, Linda, Wendy a Julie, mam-yng-nghyfraith hoff a nain annwyl i Daniel, Osian, Emma, Catrin, Sion a Tomos. Hefyd cydymdeimlwn â Michael Clarke a'r teulu, Tan'rallt Goch, yn ei brofedigaeth o golli ei dad, Peter Cooke, yng Nhregarth (gynt o Lanberis).


Adref o'r Ysbyty Croeso adref i Mr Elwyn Foulkes, 1 Rhos Bryn, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Margaret Williams, Bryn, ar ddod yn nain i efeilliaid. Ganwyd mab a merch fach, Ianto Wyn ac Elsi Ann, i Annwen a Terry. Anrhegion Nadolig arbennig i'r ddwy chwaer fawr, Efa Lois a Mali Fflur. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Cyfarchion y Tymor Dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn newydd Dda i bawb yn y pentref.

NANT PERIS Kate Pritchard (872331) econantperis@hotmail.com

Priodas: Ar yr 20fed o Fehefin 2015, priodwyd Llinos Haf Jones a Dafydd Pritchard, Fron Rhedyn, Nant Peris, yn eglwys Peris Sant yn y pentref. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Carol Roberts gyda Gareth Jones ar yr organ. Bedwyr Jones oedd y gwas priodas a Manon, Miriam a Kate Pritchard a Sara Davies oedd y morynion. Erin Lliwedd oedd y forwyn fach a Gruffudd Elidir Pritchard oedd y gwas bach. Cafwyd darlenniadau gan Gaynor Davies a Roland Hladin. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd.



DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun

Nos Fawrth, 1af Rhagfyr 2015

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cyngorwyr, Sion Jones, Geraint Elis, Rhian Evans, Carolyn Roberts, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Jane Pierce, Idris Thomos, a R. Hefin Williams.

Gweddi. Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau. Phylip Jones, Aled Green

2. Datgan buddiant. Dim

3. Cofnodion cyfarfod 3ydd Dachwedd 2015.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Rhoddion Ariannol – Derbyniwyd 3 llythyr o ddiolch gan gymdeithasau lleol a dderbyniodd rodd ariannol gan y cyngor.

Grid Cenedlaethol – Derbyniwyd ymateb i'n llythyr o'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â pylonau a bydd y materion a godwyd yn mynd i mewn i adroddiad ar ymateb yr ymgynghoriad.

Adnewyddu Tai Bryntirion – Derbyniwyd llythyr a sawl galwad ffôn gan Dŵr Cymru yn dilyn gyrru llythyr yn datgan ein siomedigaeth nad yw'r tai yn barod ar gyfer derbyn y preswylwyr yn ôl. Yn y llythyr maent yn datgan pryd y gwnaethpwyd gohebiaeth a chysylltiad ar wahanol faterion gyda CCW. Yn ôl Dŵr Cymru, maent nawr yn disgwyl am ddogfen gan CCG cyn y gall y cyfreithwyr fwrw ymlaen ar y gwaith.

Mae'n ymddangos i bob pwrpas y bod yna lawer gormod o amser rhwng yr amserlen gohebiaeth, ac y dylai y ddau gwmni ddod at ei gilydd a chyfathrebu yn wythnosol er mwyn cael cwblhau y gwaith a gwneud hynny yn flaenoriaeth, ac i'r tenantiaid cael symud yn ôl mor fuan ac sydd bosib yn y flwyddyn newydd. Awgrymwyd i'r clerc ysgrifennu llythyr at pennaeth CCG, Ffranccon Williams, yn cyfleu y neges yma, a bod CCG wedi rhoi addewid y buasai'r tai wedi eu cwblhau yn sydyn. O hyn ymlaen mae pawb yn mynd i fod yn amheus o'u addewidion.

Cofebau Rhyfel – Derbyniwyd galwad ffôn a llythyr gyda amcan bris gan Rhodri Clark o History Points. Gan fod gwahanol gymdeithasau mewn pentrefi yn cymeryd gofal dros y cofebau rhyfel, awgrymu fod y clerc yn ysgrifennu llythyr yn ôl gyda enwau a chysylltiadau y gofawyr mewn gwahanol bentrefi er mwyn i Rhodri Clark gysylltu yn uniongyrchol â hwy. Mae y Cyngor Cymuned yn barod wedi adnewyddu y cofebion sydd i'w gweld ar y wal ym Mynwent Macpela.

Biniau Halen – Cafwyd ymateb o Un Llais Cymru gyda awgrymiadau beth i wneud ynghylch y gost. Bu cryn drafodaeth ar y mater, a phenderfynwyd bod yn wir angen y cwblw o'r biniau halen, gan fod trigolion yr ardal angen mynd am eu gwaith.

5. Gohebiaeth a materion eraill

Gwarchod y Gymdogaeth – Derbyniwyd llythyr o Heddlu Gogledd Cymru, yn gofyn am aelodau gweithgar o fewn ein cymuned i greu Grŵp llywio. Awgrymwyd gyrru manylion a chysylltiad Eco'r Wyddfa iddynt roi neges yno gan fod nifer o bobl gweithgar yn byw yn yr ardal ac wedi ymddeol, ac o bosib gyda amser ar eu dwylo.

6. Cynllunio

Cae Corniog Bach, Penisarwaun – Codi estyniad ochor un llawr a balconi llawr cyntaf

7. Praesept a Chyllid

Does dim dwywaith fod toriadau "Her Gwynedd" yn mynd i gael effaith mawr ar gyllideb y Cyngor Cymuned eleni ac o bosib am flynyddoedd i ddod. Ar hyn o bryd gwyddom nad yw'r Cyngor Sir am gyllido biniau halen ar ôl mis Ebrill 2016. Y gost o gyllido biniau halen yn unig yn mynd i gael effaith o £2.50 yn ychwanegol i bob tŷ.

Mae'n gofyn i'r plwyf fod yn weledol ar y mater, ond ni allwn ddweud yn union beth fydd y toriadau, ond bydd ambell i wasanaeth fydd yn cael ei golli yn sicr yn cael ei gynnig i Cyngorau Cymuned y sir.

Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd codi cost y praesept i £8

Soniwyd hefyd bod cais wedi ei roi mis diwethaf yn awgrymu rhoi swm rhoddion i Mantell Gwynedd i'w ddiolli. Penderfynwyd peidio â gwneud hyn gan efallai y buasai'r rhoddion yn mynd allan o'r plwyf.

Cytunwyd yn unfrydol.

7. O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – Cwyn yn Stad Bryntirion am gyflwr y lôn. Mae tyllau mawr ar y ffordd yn dilyn defnydd gan lorïau trwm yn ystod adnewyddu y tai. Llythyr i CCG

Rhiwlas – Angen atgyweirio 1 bin halen yn Lôn Carreg y Gath, ac mae 1 bin halen wedi diflannu o Bro Rhiwen, a ddim ar y rhestr chwaith.

Ffosi ydd a gwteri, mae'n amser priodol i llunau cyn y llifogydd. Cysylltu â'r Cyngor Sir.

Bethel – Cynulliad wedi torri cyllido Clwb Ffermwyr Ifanc. Roedd y mudiad yn derbyn 140 mil drwy Gymru, ni fydd dim un geiniog o hyn ymlaen. Cais i bawb gefnogi CFfL.

Band Llydan yn araf iawn.

Rydym yn gefnogol iawn ac yn Gefn yn Gefn gyda Chyngor Cymuned Cynwyd ar bolisi iaith.

Deiniolen – Diolch i drigolion yr ardal ar ran Pwyllgor Gŵyl Deiniolen am y gefnogaeth i noson yng nghwmni Sir David Brailsford yn neuadd Ysgol Brynrefail. Roedd pob tocyn wedi ei werthu ac yn falch o ddweud fod y neuadd yn orlawn.


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

Cais i ddatgofrestru Tir Comin Cefn Du ...a chofrestru tir cyfagos yn ei le

Mae Cwmni Snowdonia Pumped Hydro yn datblygu safle o amgylch y Chwarel Fawr ar Gefn Du fel rhan o'u cynllun storfa bwmp trydan dŵr yng Nglyn Rhonwy. Mae rhan o'r datblygiad yng Nghefn Du ar dir comin ym mhlwyf y Waunfawr. Mae hyn yn golygu oblygiadau cyfreithiol dan Ddeddf Tiroedd Comin. Oherwydd hynny, mae'r cwmni yn cyflwyno dau gais sy'n ymwneud â'r tir comin:

- datgofrestru rhan o'r tir comin a chofrestru tir cyfagos o'r un ansawdd yn ei le

- caniatáu gwaith dros-dro ar y tir comin

Bydd y datblygiad terfynol yn hawlio rhan o'r tir comin yn barhaol, sef tua 32 erw. Bwriad y cwmni yw paratoi 40 erw o dir comin 'newydd' yn ei le. Byddai holl hawliau y tir comin a gaiff ei golli yn cael eu trosglwyddo i'r 40 erw 'newydd'.

Yn ystod cyfnod paratoi'r datblygiad (y cyfnod adeiladu) byddai'n rhaid codi ffens ac atal mynediad i tua 30 acer arall o'r tir comin. Mae'r cwmni yn cynnig 25 erw 'dros-dro' yn eu lle.

Mae'r effaith barhaol yn golygu cynnydd o 8 erw yn arwynebedd y tir comin.

Bydd y gwaith hefyd yn golygu colli rhan fechan iawn o'r tir comin (llai na 3 erw mewn strïbed hir) er mwyn gwella'r ffordd o'r grid gwartheg i fyny'r allt hyd adfeilion Pen y Ffrridd. Bydd y gwaith hwn yn gwella ansawdd y ffordd (gyda cilfannau) a gwella diogelwch.

Yn ystod y cyfnod adeiladu bydd angen cau'r ffordd bresennol ger adfeilion Pen y Ffrridd (y giat ddwbl sy'n arwain i'r goedwig) a'i dargyfeirio drwy'r goedwig mewn tro pedol cyn cyrraedd yn ôl i Fwlch y Groes. Nid yw hyn yn rhan o'r cais sy'n ymwneud â'r tir comin.

Yn ogystal a chynnyddu maint y tir comin o 8 erw, mae'r cwmni hefyd yn cynnig dynodi tua 65 erw o dir sy'n breifat ar hyn o bryd yn dir mynediad a fydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer hamdden.

Mae'r holl fanylion hyn ar gael ar safle www.snowdoniapumpedhydro.org ac yn cynnwys deg o fapiau manwl yn dangos yr holl newidiadau – dros-dro a pharhaol. Mae'r cwmni yn awyddus i dderbyn barn y trigolion lleol (ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y datblygiad), Gallwch gysylltu â hwy drwy ysgrifennu i 12a Head Street, Halstead, Essex. CO9 2AT neu ar e-bost i info@snowdoniapumpedhydro.com

Cyflwyno cais am ganiatáu datblygu i'r Arolygaeth Gynllunio. Er fod caniatad wedi ei dderbyn eisoes i'r cynllun gan Gyngor Gwynedd, mae'r ffaith fod y cwmni bellach eisiau dyblu maint y trydan a gynhyrchir yn golygu fod angen gwneud cais i'r Arolygaeth Gynllunio. Mae angen anfon sylwadau neu wrthwynebiadau i'r Arolygaeth Gynllunio erbyn 15 Ionawr 2016.

Mae copiau o'r cais i'w cael yn Llyfrgelloedd Caernarfon, Deiniolen a Llanberis, ym Mhencadlys Cyngor Gwynedd ac ym Meddygfa Waunfawr. Yno hefyd ceir gwybodaeth am sut i gofrestru eich sylwadau neu eich gwrthwynebiad.

Mae nifer o unigolion a grwpiau eisoes wedi datgan eu pryderon ynglŷn â'r cynllun, yn enwedig yr effaith amgylcheddol o ollwng dŵr i Lyn Padarn ac i afon Nant y Betws. Y pryder mwyaf yw'r ffaith fod y ddau dwll chwarel wedi eu defnyddio dros y blynyddoedd fel safle lluchio sbwriel anghyfreithlon a bod cemegau wedi casglu yno a llygru'r dŵr – ac mae angen gwagio'r dŵr hwnnw i Lyn Padarn a Nant y Betws cyn cychwyn ar y gwaith. Mae caniatad wedi ei roi eisoes gan Gyfoeth Naturiol Cymru i dynnu dŵr allan o Lyn Padarn.

Dyma felly eich cyfle olaf i fynegi barn a phryderon ar effaith y datblygiad.

Un funud fach ...

GWERTH BYWYD

Beth wnewch chi os yw'r gêm bêl droed yr ydych yn ei gwyllo ar y teledu yn sobor o ddiflas? Diffodd y set? Troi at sianel arall? Dal i wyllo? Mae'n debyg mai dal ati yn y gobaith y bydd y gêm yn gwella a wna'f fi. Ac wrth wneud hynny, cadw un llygad ar yr hysbysebion. Na, nid yr hysbysebion teledu ond yr hysbysebion ar y byrddau electroneg o amgylch y cae. Mae'r byrddau'n troi a'r hysbysebion yn newid yn gyson, a thristwch pethau gydag ambell i gêm yw bod mwy o symud a mwy yn digwydd ar y rheiny nag ar y cae. Ond mae'n gas gen i'r ci! (O leiaf, dwi'n meddwl mai ci ydi o.) Pa gi? Yr un sy'n rhedeg ar draws y bwrdd electroneg dros eiriau un hysbyseb penodol. Wn i ddim pa hysbyseb yw hwnnw gan mai'r ci sy'n mynd â'r sylw i gyd. A niwsans o gi ydi o. Wedi'r cwbl, dydi pob gêm ddim yn ddiflas, ond mae'r hen gi hwn yn llwyddo i dynnu fy sylw oddi ar y bêl bob tro mae'n ymddangos. Ac nid un ci sydd chwaith, ond dau neu dri ohonyn nhw yn dilyn ei gilydd o un bwrdd electroneg i'r llall.

Ambell waith, nid banciau a siopau betio a diodydd a bwydydd gaiff sylw ar y byrddau hyn. Sylwoch chi, er enghraifft, fod mwy a mwy o brifysgolion yn eu defnyddio i hysbysebu eu cyrsiau erbyn hyn? Ac ambell dro, bydd negeseuon Cristnogol i'w gweld arnyn nhw; a'r mwyaf cyffredin o'r rheiny yn hysbysebu cyrsiau Alfa neu'n cyfeirio at un adnod, 'Ioan 3:16'.

Ond hysbyseb arall a ddenodd fy sylw'r noson o'r blaen yn ystod un gêm bêl droed. Doedd hwn ddim ar fwrdd electroneg modern ond ar balis pren hen ffasiwn. Ac arno, yn ymestyn o un gornel i'r cae i'r llall y tu ôl i'r gôl oedd y geiriau (yn Saesneg) 'Mae bywyd heb Iesu yn ddiystyr'.

Tybed beth mae'r cannoedd (ac rwy'n amau mai cannoedd yn hytrach na miloedd sy'n mynychu'r stadiwm arbennig honno) yn ei feddwl o'r frawddeg? Mae'r geiriau yn amlwg yn ddweud mawr iawn, yn arbennig o gofio y byddai cynifer o bobl yn mynnu mai'r gwrthwyneb sy'n wir a bod unrhyw sôn am grefydd a ffydd yn gwbl ddiystyr. Ond i'r Cristion, mae yna wirionedd mawr yn y geiriau. Y dyddiau nesaf hyn dros gyfnod y Nadolig cawn ddatflu dyfodiad Iesu Grist i'n byd. Wrth gofio ei eni mae Cristnogion yn cyhoeddi hefyd mai'r person hwn, yn fwy na neb na dim arall, sy'n rhoi ystyr i'w bodolaeth a'u bywyd. Nid yw stori'r Nadolig wedi ei chyfyngu i'r preseb a'r seren, na hyd yn oed i'r babi bach ei hun. Oherwydd yr Un y cofiwn ei eni yw sail ein gobaith a sylwedd ein llawenydd. Mae ein ffordd o fyw, ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau, ein gobeithion ar gyfer y byd hwn a'r byd sydd eto i ddod, wedi eu seilio ar Iesu Grist a'i ddysgeidiaeth a'i waith. Yn Iesu Grist y cawn ein llawenydd mwyaf a'n cysur dyfnaf. Hebddo, fel yr awgrymai'r hysbyseb, mae bywyd nid yn unig yn dlotach o lawer ond yn y pen draw yn amddifad o gyfeiriad a gwerth ac ystyr.

Nadolig Llawen iawn i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD



KERFOOTS

EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!

Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.

(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

www.kerfoot's.com
enquiries@kerfoot's.com

Tel: 01766 512256

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"





<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

27

Cymdeithas Bysgota Seiont a Gwyrfaï Adroddiad 2015

Pob blwyddyn byddaf yn dechrau teipio'r adroddiad yma ar ddiwedd mis Hydref, tua'r amser pan y bydd cyfnod 'sgota'r eog ar yr afonydd, a'r Seiont yn arbennig, yn ddiweddglo cyffrous i'n ymdrechion ar hyd y flwyddyn, ac yn wir yn uchafbwynt y tymor i lawer o'n haelodau. Ond eto eleni cawsom ein siomi, gyda'r eog ar y Seiont yn fethiant llwyr. Mae'n rhaid edrych yn ôl rhai misoedd, a talu sylw at gyfanrwydd ac amrywiaeth y dyfroedd sydd ar gael i'n aelodau er mwyn gwerthfawrogi llwyddiannau'r tymor sydd wedi mynd heibio.

Doedd y gaeaf diwethaf ddim mor galed ac ambell aeaf diweddar, a bu cryn edrych ymlaen at y pysgota ar ddechrau 2015. Ond daeth gwanwyn anarferol o oer, ac araf iawn oedd unrhyw arwydd o dyfiant na glasu, a barrug ar lannau'r afon hyd ddiwedd Mai a dechrau Mehefin. Ond roedd hi'n braf clywed bod brithyll wedi eu dal ar Lyn Padarn ar fin nos, a chafwyd rhai da yn yr afonydd hefyd. Roedd Nantlle a Cwellyn, fel y llynedd, wedi pysgota'n dda unwaith y daeth y tywydd cynhesach. Mae pleser mawr i'w gael wrth grwydro a chwipio rhai o'r dyfroedd mwy elfennol, naturiol yma ymhle gellir 'sgota'r hen ddulliau traddodiadol neu fentro efo dulliau a thechnegau mwy cyfoes eu naws.

Ac unwaith eto roedd y pysgota ar Lyn y Dywarchen wedi cynnal diddordeb aelodau ac ymwelwyr ar hyd y tymor. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau sydd yn gweithio'n galed yn y ddeorfa ac yn helpu gyda'r stocio. Cafwyd pnauniaid caled iasoer ym mis Ebrill a Mai ond gyda dyfalbarhad roedd pysgod i'w cael, a'r rheini mewn cyflwr arbennig. Ac wrth i'r dyddiau ymestyn bu nosweithiau hwyllog. Yn aml gwelwyd rhes o enweirwyr brwd ar hyd glan y llyn a bron pawb yn dal yn ei dro, gyda brithyll enfys a "brownies" oedd yn rhoi pleser ar eu bachu ac eto wedyn yn y badell.

Ar gyfer 2016 bydd rhai pysgod wedi eu cadw i'w pesgi yng Nghrawia o ddechrau'r flwyddyn er mwyn cael ychydig o bysgod mwy ymhlith y stoc arferol, i godi disgwyladau ymhellach ymysg y criw eiddgar sydd yn tynnu'r plu drwy'r dyfroedd.

Roedd sewin yn y Llyfni hefyd. Er na cawsom rhyw lawer o ddŵr roedd pysgod ym mhyllau glan y môr ac hefyd wedi rhedeg ymhellach ar hyd yr afon. Yn hwyrach yn yr haf roedd pysgota nos difyr, er bod rhai nosweithiau'n well na'i gilydd. Roedd hyn yn cyd-fynd â straeon y rhai oedd wedi bod yn sleifio 'mysg y llwyni ar y glannau yn ystod y dydd yn chwilio'r pyllau - ar brydiau roedd heigiau o wyniadau i'w gweld mewn pwll ond dim golwg ohonynt ddeuddydd neu dridiau wedyn. Daliwyd un neu dda o sewin mwy ac eog hefyd. Ac ar y Gwyrfaï daeth llwyddiant eto i'r sgotwr sydd yn dallt yr afon, ac am gyfnod roedd un aelod wedi dal mwy o eog na chyfanswm y daliadau ar y Seiont.

Mae sôn bod llai o bobl ifanc yn ymddiddori ym myd pysgota a gweithgareddau traddodiadol cefn gwlad. Aeth y Gymdeithas ati i drefnu diwrnod agored ym mis Mai ar dir Gwesty'r Seiont Manor yn Llanrug. Bu aelodau'n torri glannau'r llyn sydd yno, a rhoddwyd brithyll o'r ddeorfa ynddo ymlaen llaw. Roedd cyfle hefyd i danio gwn ar golomennod "clai" drwy garedigrwydd BASC. Roedd rhai o staff CNC am ddod â thanc a pysgod o'r afon i'r plant gael eu gweld. Bu hysbysebu a gosod poster, ond yn naturiol roedd rhywfaint o bryder na fuasai llawer o ddiddordeb. Ond cawsom ein siomi ar yr ochr orau gyda llond y lle drwy'r dydd. Roedd cyfle am sgwrs a phaned, a bu aelodau yn rhoi gwersi castio. Cafodd un neu ddau o bysgod eu dal er gwaetha'r chwipio ac roedd y cwbl yn llwyddiant ysgubol. Diolch yn fawr iawn i'r rhai a fu wrthi'n trefnu ymlaen llaw ac yn helpu ar y diwrnod i gefnogi'r fenter.

Mae stori Llyn Padarn a'r Seiont yn rhygnu ymlaen. Mae achos llys arall wedi ei drefnu at ddiwedd mis Tachwedd ond, wrth gwrs, mae posib y bydd gohirio pellach eto. Mae Dŵr Cymru wedi amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill yn y flwyddyn neu ddwy nesaf, yn cynnwys gwellianau i waith trin carthion Nant Peris, Dinorwic, Penisarwaun a Brynrefail, yn ogystal â gwaith sylweddol yn Llanberis. Mater arall oedd y cynllun arfaethedig i sefydlu pwerdy hydro arall yng Nglyn Rhonwy, yn gwagio i Lyn Padarn. Mae'r Gymdeithas wedi ymateb yn gadarn yn gwrthwynebu'r gwaith yma hefyd. Ac mae'n ymdrechion i achub y Llyn yn parhau drwy gyfarfodydd rhyngom ni a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n ddealladwy bod ein aelodau yn gweld y broses yn araf a rhwystredig, ond y gwir yw mai gwaith caled ac ymgyrchu diflino'r Gymdeithas sydd wedi arwain at yr holl welliannau sydd yn cael eu gweithredu. Gobeithiwn bod pob cam bach ymlaen yn gam at adfer sefyllfa'r llyn a'r Seiont, ond hir yw pob ymaros.

Yn nes i'r achos mae cyfarfodydd wedi eu cynnal i drafod gwaith ar yr afon ei hunan, ond rhwystrau a rhesymau ariannol oedd ateb CNC bron bob amser. Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth afonydd. Mae rhai o'r ffynonellau incwm a fu wedi diflannu, a'r dyfodol yn ansicr, ond cyflawnwyd gwaith i wella mynediad pysgod ar yr Afon Rhos a rhai o'r nentydd yn ardal Pontrug.

Ar y Gwyrfaï, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i wella'r llwybr pysgod lle mae'r afon yn rhedeg o'r llyn. Gobeithiwn y bydd hyn yn caniatu i eog a sewin y dyffryn wneud defnydd llawn o'r cynefinoedd yn y nentydd uwchlaw Llyn Cwellyn, sydd wedi bod tu hwyt i'w cyrraedd gan fod yr hen lwybr mor aneffeithiol.

Mae trafferthion Llyn Padarn wedi cael effaith sylweddol ar werthiant tocynnau dros y tymhorau diwethaf. Mae'r tywydd tu hwnt i reolaeth y pysgotwr ond teimlwn ein bod wedi bod yn anlwcus i gael cyfnodau sych, hir, heb law sylweddol ar ddiwedd yr haf am ddau dymor yn olynol. Yn ffodus mae'r clwb wedi cael gostyngiadau mewn rhenti ar rai dyfroedd drwy garedigrwydd eu perchenogion a rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth yma drwy gyfnod anodd. Mae Melin y Cim hefyd wedi bod yn talu ei ffordd ac yn help i gadw ein pennau uwch y dŵr. Ond mae'n bleser adrodd ar dymor difyr er gwaethaf y gwahanol anawsterau, ac ymddengys bod diddordeb mawr yn lleol yn ein hymdrechion a'n gweithgareddau, ymysg pysgotwyr a darpar bysgotwyr hen ac ifanc. Rydym yn edrych ymlaen yn barod at grwydro'r glannau yn 2016.

Mae teulu'r diweddar Mr. Maurice Jones, Penllyn, ein cyn Gadeirydd, wedi rhoi cerflun yn rodd i'r Gymdeithas. Penderfynwyd ei gynnig fel gwobr am y llun gorau a dynnwyd sydd yn ymwneud â physgota a'n dyfroedd yn ystod y flwyddyn. Mae manylion pellach ar adran newyddion ein gwefan.

Diolchaf ar eich rhan bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y Trysorydd, y Cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, a threfnu tocynnau i'r siopau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r Ysgrifennydd am ei waith yn 2015.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2016.

Robin Parry



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILs
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandiroi.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk










Nadolig Llawen Ar ben arall i'r lein

Mis diwethaf mi wnes addewid y buaswn yn trio fy ngorau i roi rhywfaint o wybodaeth ar sut aeth y tymor yn gyffredinol, wel fel hyn 'roedd hi - Ar y Seiont mae pethau i weld yn dal iddi, ond tydi pethau ddim gwella ar 2014 chwaith. Ym myd yr eog fe ddaliwyd 3 yn ystod tymor 2014 a dyna'r union nifer ddaeth i'r rhwyd eleni hefyd. Yr unig beth positif cyn belled a dwi'n y cwestiwn yw fy mod i wedi cael un ohonynt! Pluen Cascade maint 10 a dynnodd ei sylw. 'Sgodyn arian gyda llau môr arno. Fe gafodd ei ryddid i fagu - a phob lwc iddo.

Ym myd y gwyniadau mae pethau eto rhywbeth 'run fath â 2014, sef oddeutu 50, gyda'r trymaf at tua 3phwys a hanner. Er ein bod yn gwybod beth yw rhan o'r broblem ar y Seiont, sef llygredd Padarn, ond hefyd mae problemau eraill yn cael effaith negyddol ar y 'sgodyn deniadol yma. Tua 4 blynedd yn ôl fe roddwyd grant o £4 miliwn i'r Brosiect Sewin Celtaidd i wneud ymchwil ar ble oedd gwyniadau gorllewin Cymru a Lloegr yn mynd i besgi ym Môr yr Iwerydd. Difyr oedd gwrando ar y canlyniadau ar grwydriadau'r 'sgodyn yma. Beth a gododd fy nghlustiau oedd pan ddywedodd un o'r arbenigwyr - er mwyn cael poblogaeth iach o wyniadau mae'n rhaid sicrhau fod is-nentydd y prif afonydd, yn enwedig y rhai sy'n agos i'r aberoedd i gael ei gwarchod a'u clirio o rwystrau. Os yw hyn yn un o'r prif ofynion i gael poblogaeth gref o'r sgodyn braf yma, wel yna ar y Seiont does dim rhyfedd ei bod yn argyfwng. Mae'r holl is-nentydd, a oedd ar un adeg yn rhydd i'r gwyniadau redeg i gladdu hyd at Ceunant, Tan y Coed, Llanrug, Pen Greuor, Llanddeiniolen, Penisarwaun a Llyn Tomos Lewis, i gyd gyda rhwystrau wedi ei codi sydd yn ei gwneud yn amhosib cynnal llwybr i'r pysgod redeg a magu.

'Rydym wedi cael cyfarfodydd di-ri gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, un o brif yrwyr y Prosiect, ei ateb - wel nid yw'n bosib gwneud dim gan fod y gost yn ormodol. Mae pawb yn gwybod ein bod fel 'sgotwrs yn hen sinigs, ond dwi'n sicr y byddai pawb yn cytuno mi fuasai £4miliwn yn fwy na digon i roi sylw i bob rhwystr ar afonydd Sir Gaernarfon. Ond, wrth gwrs, rhaid ystyried na does 'run ohonom yn arbenigwr.

Tra 'dwi ar drywydd yr arbenigwyr, dydd Mawrth 24 a Mercher Tachwedd 25, fe gynhaliwyd ein hachos i ofyn am Adolygiad Barnwrol yn yr uchel lys yng Nghaernarfon. Disgwylir i'r Barnwr Mr Ustus Hickenbottom gyhoeddi ei benderfyniad yn ystod yr wythnosau nesaf. Nid yw'n briodol felly i roi unrhyw sylwadau pellach hyd nes bydd y feirniadaeth wedi dod i law.

Os bu un llwyddiant yn ystod y flwyddyn, yna ein diwrnod Hyfforddi Pysgota/Saethu Colomennod Clai ar dir Gwesty'r Seiont Manor aeth ar wob. Ni fuasai'n bosib cynnal y gweithgareddau heb gymorth Cyngor Gwynedd drwy Gist Gwynedd, gwariant gwerth chweil. 'Rwy'n disgwyl cadarnhad gan BASC i gael ar ymestyn yr hyfforddiant, yn ogystal â saethu colomennod clai i reiffl awyr a efelychydd saethu ffesantod.

Mae diolchiadau'r Gymdeithas hefyd i Gwynfor Jones, Bethel, am greu DVD o hen fideos yr oedd wedi eu cymryd dros y blynyddoedd o waith a digwyddiadau o fewn y clwb. Diddorol dros ben - 'roedd pawb yn symud tipyn cyflymach ugain mlynedd yn ôl!

Cynhaliwyd ein Pwyllgor Blynnyddol yn yr Institiwt, Caernarfon nos Iau, 10fed Rhagfyr. Nid oes dim newidiadau i'w cyhoeddi ac enillwyd y tlysau oedd:

* eog trymaf - Tarian W.J. Williams, a gwyniedyn trymaf - Tarian J.V. Evans, i Carwyn Owen Penygroes, a ddau bysgodyn o Afon Llyfni.

* Tlws Tommy Lovell am ei waith at nodweddion y Gymdeithas - Tony Roberts, Llanrug.

* Pysgodyn trymaf i aelod dan 18 - Tarian Garmon (Oscar Evans) i Tomos Morgan, Waunfawr, gyda eog 8 bwys o Afon Gwyrfa.

Diolchiadau i deulu y diweddar Maurice M. Jones, Penllyn, cyn Gadeirydd y clwb, am eu rhodd caredig o gerflun eog. Bydd y rhodd yn cael ei gyflwyno yn flynyddol o 2016 am y llun gorau o unrhyw beth sy'n ymwneud â dyfroedd neu weithgaredd y Gymdeithas. Yn ogystal, bydd gwobr o £25 at bris tocyn y flwyddyn ganlynol.

Cyn cau am y flwyddyn dyma rhai ystadegau diddorol 'rwyf wedi eu derbyn yn ddiweddar:-

Arian mae Canŵ Cymru wedi ei dderbyn dros y pum mlynedd diwethaf o Gyngor Chwaraeon Cymru a'r Loteri: £1.5 miliwn.

Arian mae Angling Cymru wedi ei dderbyn dros yr un amser: £250,000. Does dim o hyn wedi dod i Arfon.

Mae 55,000 o drwyddedau pysgota wedi ei prynu yng Nghymru am £1.2 miliwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud ei fod yn cael ei wario i gyd yn y byd pysgota - dim dimau wedi ei wario ar ein dyfroedd ers 2002.

Mae Croeso Cymru yn dweud fod pysgota gyda gwerth o £38 miliwn i economi Cymru. Mae'n amlwg nad oes dim llawer yn cael ei fuddsoddi ar lawr gwlad Arfon.

Mae Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru yn rhedeg timau pysgota pluen rhyngwladol, sy'n cystadlu mewn cystadlaethau rhwng gwledydd Prydain, Ewrop, Y Gymanwlad a Chwpan y Byd. Mae timau i'r oedolion, merched, anabl a ieuencid sy'n rhoi cyfle i dros 100 o unigolion gynrychioli ein gwlad - be mae rhain yn gael at eu cynnal - wel yn 2014 fe gafwyd £2,000 yn unig gan Angling Cymru, eleni dim. Y tebygrwydd os buasai pawb yn 'sgota oddi ar ganŵ fe fuasai arian yn cael ei dywallt i'w ffordd. Does eisiau gras, yn does!

Atodaf at eich sylw Adroddiad ein Cadeirydd Dr. Robin Parry i'r Pwyllgor Blynnyddol.

Wrth ddistewi am y flwyddyn dymunaf i chwi oll Nadolig Dedwydd a hapus a Blwyddyn Newydd lewyrchus dros ben
Huw Price Hughes

“Land”

“Willie Land,” “Land” neu “Mr Land” oedd enw fy hen athro gwaith coed yn yr hen Ysgol Brynrefail. Methiant llwyr fu pob ymdrech o'i eiddo i wneud saer ohonof, ond fel athro arlunio, o dan amodau digalon yn y dyddiau diystafell arbennig yr hen adeilad, yr oedd, yn fy marn i, yn ddiguro! Efallai nad yw pawb o'i hen ddisgyblion o'r un farn, ond dyna un o fendithion bywyd – thala hi ddim i bawb fod yr un fath...

Meddyliais am yr hen gofi – cans dyna oedd, talp o dre Caernarfon, unwaith yr agorai ei enau – roedd yr acen yn dweud y cwbl. Pan ddaeth yr amser i mi gael rhyddid i fynd ar nosau Sadwrn i'r 'dre' a cherdded yr hen daith o'r maes, heibio'r farchnad, o dan y cloc a rownd yn ôl, sylweddolais ei fod – Mr Land - o deulu cadw siop Dada, sigarets a ballu... er mai anaml y galwai fy ffrindiau a minnau yno – gwell oedd y siop chips oedd nepell o'r lle! Ambell dro yn yr haf, gwisgai Mr Land 'blazer' a bathodyn crand ar boced chwith... bathodyn coleg Loughborough ydoedd – ac o dipyn i beth, pwythwyd ei hanes gennym fel dyn o allu technegol a sgiliau pêl-droed a chwaraeon arbennig - canys coleg felly oedd y coleg hwn! Dyn bychan o gorff – heb owns o wast arno, fel pin mewn papur a hynny hyd yn oed yn y 'cwt wdworc' yng ngwaelod lawnt ffyrnt yr ysgol! Dyn â phob blewyn o'i wallt brown Brylcream tywyll yn ei le... Pam yr atgo hwn sydd yn drigain mlwydd oed a mwy?

Gweld coeden helyg a'i brigau ystwyth megis ffrydiau yn pistyllio wrth orlifo – Weeping Willow fuasem yn ei galw yn Saesneg. A chofiais yn sydyn am uned o waith arlunio a wnaethom yn fform 2 efo Willie Land – “Design and Decorate”... Fel thema neu ganllawiau yr oedd yr athro wedi dewis 'coed'! Dyma gefndir y soned mewn parchus goffadwriaeth...

Hen Athro yr Helygen Wylofus

Willie Land? Cofi o athro gwaith coed
a chelf 'rhen Cownti Sgwyl – yr oes o'r blaen.
Cofio y fflach lachar o weld, - oed
'r addewid yn ôl, wrth syllu ar daen
ysblander helygen wylofus rydd,
a haul hydre'n lliwio'i changau crog
a'u troi'n atgo byw. Nid anghofiaf y dydd,
yntau fy athro yn egluro'r llog
gawn drwy ddychmygu a newid y llun!
Gwneud pistyll o'r pren – llawn patrymau gwiw
A gweld drwy'r cyfan mai hi ei hun,
'r helygen a'r haul oedd gwir brofiad lliw...
Gwelaf – 'rhen Land, a'i lyfr esiamplau gwyh,
gwelaf yr oll a hi'n wylo o'r gwrych.

Norman Closs

Nadolig 2015

Lloeren yw seren Syria– i wylïo'r
ddynoliaeth ar chwalfa.
A llais dyn, nid 'wyllys da
yr Wyl, yw swn cweryla.

RLLJ

CWIS NADOLIG YR ECO

1. Beth sydd yn cysylltu y clybiau pêl-droed canlynnol : Arsenal, Sheffield Utd., Reading a Real Madrid?
2. Tu ôl i waliau pa leoliad cymharol lleol y chwaraeodd Cymru gêm bêl-droed ryngwladol llawn ar droad y ganrif ddiwethaf?
3. Pa ddau glwb yng Nghyngair Genedlaethol pêl-droed Cymru sydd â'r pellter fwyaf rhyngddynt o ran milltiroedd?
4. I pa glwb rygbi proffesiynol yn Lloegr y mae'r canolwr Jamie Roberts wedi arwyddo?
5. Pa glwb rygbi Cymreig sy'n chwarae eu gemau cartref ar Barc Eugene Cross?
6. Pa chwaraewr rygbi Cymreig ennillodd Gwpan Ewrop gyda chlwb Caerfaddon(Bath)?
7. Pwy yw'r Cymro olaf i chwarae criced i Loegr mewn gêm brawf?
8. Ym mha ddinas y chwaraewyd y gêm brawf griced dydd/nos gyntaf yn ddiweddar?
9. Pa glwb fu'n bencampwyr Uwch Gynghrair Criced y Gogledd am yr ail dymor yn olynol eleni?
10. Pa dref yw cartref clwb rygbi 13 y Bleiddiaid(Wolves)?
11. Ym mha ddosbarth pwysau mae'r Cymro Lee Selby yn bencampwr byd?
12. Ym mha ddinas yng ngwlad Belg y cynhaliwyd rownd derfynol Cwpan Davis?
13. Pa enw roddir i'r cystadlaethau 20 pelawd criced yn a) De'r Affrig a b) Awstralia?
14. Pa gystadleuaeth gynhaliwyd yng Nghanolfan y Barbican yn Efrog yn ddiweddar?
15. Ym mha wlad mae cynghrair pel-droed Huyn dai-A?
16. Ym mha gamp mae timau lleol y Primos, Amigos a'r Vixens yn chwarae?
17. Pa glwb rygbi yng nghyngair y Gogledd sy'n seiledig ar ardal Meifod yn Sir Drefaldwyn?
18. Pwy yw'r unig Brydeiniwr i ennill y Tour de France ddwy waith?

ATEBION
1. Clybiau'r chwaraewr
Warrington
11. Pwysau Plu 12. Ghent
13. a) Ram Slam b) Big Bash
14. Pencampwriaeth Snwcer
Prydain 15. Awstralia 16. Pel-
rwyd 17. Cobra 18. Chris
6. Ieuan Evans 7. Simon Jones
quins 5. Glyn Ebbwy
Hwlfordd/Airbus 4. Harle-
2. Parc y Penrhyn, Llandegai 3.
Ewro 2016.
sgortiodd i Gymru yn ymgyrch

DYMUNIADAU'R NADOLIG

1. I Gary Monk, ateb i weddi.
2. Rhoi terfyn ar y gor-filiynau o ffioedd teledu sy'n llifo i bocedi FIFA a'u tebyg sy'n cael ei wastraffu drwy sawl dull o lwgwr – wobrwyo.
3. I Undeb Rygbi Cymru ddilyn y Gymdeithas Bêl-droed a gostwng pris tocynnau gemau rhyngwladol.
4. I'r iaith Gymraeg gael lle teilwng yng ngweinyddiad pob camp yn lleol a chenedlaethol.
5. Sefydlu Tlws Chwaraeon Bro'r Eco i roddi cyfle i wobrwyo y gwirfoddolwyr gwyh sy'n cynnal y campau yn y Fro.
6. I Waunfawr ennill dyrchafiad.
7. I drenau Aviva Cymru sylwi fod yna rhai o'r Gogledd yn teithio i Gaerdydd – ac adref – ar y tren i gemau rhyngwladol. Ble mae'r 'specials' a drefnwyd yn rheolaidd flynyddoedd yn ôl.
8. Cael y Bwrdd Dŵr i gydnabod bod dadleuon y Gymdeithas Bysgota Leol wedi 'dal dŵr' ers sawl blwyddyn, a bod ein dyfroedd dan fygythiad.
9. Nadolig Llawn i bob un ohonoch ein darllenwyr selog, a diolch o waelod calon i nifer ohonoch am eich dymuniadau da dros y misoedd diwethaf hyn.

UN NEUADD – DWY GAMP

Erbyn hyn mae Neuadd Goffa Bethel yn gartref i ddau glwb swyddogol, bowlio dan dô a snwcer. Mae'r clwb bowlio erbyn hyn yn egino, dan arweiniad Idris Rees yr Ysgrifennydd a Dafydd Williams(Banc) fel Trysorydd. Mae'r aelodau yn cyfarfod ar gyfer sesiwn ymarfer o ddwy awr bob pŵn Mercher am 1pm. Erbyn hyn mae rhwng deg a phymtheg yn mynychu'r sesiynau, ac mae croeso i unrhyw un ddod draw. Yn sicr, dyma gêm a naw Gymdeithasol iddi, ac yn fodd i dynnu pobl at eu gilydd. Mae'r aelodau yn cydnabod cyfraniad Dafydd Price, cyn chwaraewr rhyngwladol ac erbyn hyn hyfforddwr uchel ei barch, am ei barodrwydd i ddod draw i gynorthwyo yr egin glwb. Y bwriad yn y diwedd fydd ymuno â Chyngair.

Y mae'r Clwb Snwcer yn dal eu tir yng Nghyngair Bangor a'r Cylch. Rhyfeddol oedd sylwi mai dim ond deg tîm sydd yn y gynghrair bellach, ble unwaith yr oedd tair adran. Yn fwy rhyfeddol, sylwi mai cynghrair wledig yw hi bellach bron a bod. Gyda dau dim yng Nghaernarfon, dau saith tîm o ddalgylch Eco'r Wyddfa. Mae tri tîm yn y Waunfawr, dau yn Neiniolen, un yn Llanrug ac un ym Methel. Beth tybed sydd yn achosi'r fath ddirywiad yn y trefi? Mae ambell i chwaraewr o du allan i'w dalgylch yn chwarae i dimau Caernarfon. Ai pŵl yw'r unig reswm?

Un datblygiad diddorol yn y gynghrair eleni yw dilyn patrwm Cynghrair Pêl-droed Cymru. Wedi'r Nadolig bydd y gynghrair yn rhannu'n ddwy ran, gyda'r pump uchaf yn herio'i gilydd a'r pump isaf yn yr un modd. Mae cystadlaethau cwpan yn aros yr un fath. Mae clwb snwcer Bethel yn cydnabod cyfraniad Gareth Owen am ei barodrwydd i hyfforddi ieuenctid y pentref ar bawniaid Sadwrn. Yn amlwg, mae'r clwb am weled dilyniant o chwaraewyr i'r ffyddloniaid â fentraï draw i'r 'Y.M.' mewn dyddiau fu.

STORM DESMOND YN TARO

Yn y 'dyfroedd mawr a'r gwyntoedd' rydw i'n llunio hyn o lith. Gwelwyd sawl cae chwaraeon dan ddŵr yn y dyddiau diwethaf a dim gobaith caneri i chwarae gemau. Nid yw chwaraewyr ofn dygymod a 'chaeau trwm' – dyma gyflwr naturiol nifer o gaeau clybiau amatur, heb system traenio iddynt. Ond y mae chwarae mewn gwyntoedd uchel yn dinistrio unrhyw bleser a phwrpas i gêm. Ffwlbri hollol yw dweud ei bod hi 'yr un peth i'r ddau dîm'. Rwyn cofio dyfarnu gêm rhwng Bethel a Nefyn ar gae agored Ysgol Brynrefail un pŵn Sadwrn. Roedd y gwynt yn chwyrio, ond na roedd y timau yn mynnu fod fy mhenderfyniad i ohirio'r gêm yn anghywir.

"Ty'd laen reff, da ni wedi trafailio". "Ty'd reff, dan ni'm di chwarae am dair wythnos". "Di ddim yn bwrw."

Iawn, medda fi, a ffwrdd a ni ar y cae. Dyma fi'n galw am y bêl a'i gosod hi ar y smotyn canol. Yna cicio'r bêl i fynny'r allt i gyfeiriad yr Ysgol. O fewn eiliadau roedd y bêl yn yr afon 100 llath tu ôl i mi. "Faint o amser ychwanegol 'dach chi'n meddwl fydd na heddiw?" gofynais yn gellweirus. Ni chwaraewyd y gêm.

Gyda Llanrug a Llanberis allan o nifer o'r cwpanau, dim ond gemau cynghrair fydd yn eu wynebu am weddill y tymor. Siawns felly bydd sawl Sadwrn rhydd pan ddaw dyddiadau'r cwpan. Mae'r ddau glwb o fewn un pwynt i'w gilydd ond gyda sawl gêm mewn llaw. Mae'n agos ar waelod y tabl eleni a hawdd iawn heb chwarae'n rheolaidd yw cael eu sugno i frwydr rhag disgyn o'r adran.

Bydd Llanrug eisiau wynebu y ceffylau blaen Glantraeth, a Llanberis yn croesawu Llanellwyr cyn diwedd y flwyddyn. Yna ar Sadwrn cyntaf 2016 bydd Llanrug yn herio Llanberis ar Eithin Duon. Bydd tipyn o awch i'r gêm hon yn sicr.

Rhaid llongyfarch Waunfawr ar gyrraedd brig Cynghrair Gwynedd. Mae hon yn gynghrair gystadleuol iawn eleni, a phob clod i'r hogiau am eu hymdrechion. Eto gobeithio na fydd gohirio gemau yn amharu ar eu rhediad calonogol.

Llwyddiannau lleol eto'r mis hwn – ar y mynydd a thraws-gwlad. Yn Ras Penmaenmawr, oedd yn golygu deng milltir o redeg a bron i ddwy fil o droedfeddi o ddringo ar yr anialdir mawnoglyd rhwng cefn chwarel Penmaenmawr a Bwlch y ddeufaen, gorffennodd Matthew Roberts ar y blaen i bawb arall, gan dorri record y cwrs mewn awr ac wyth munud – dros funud yn well na'r hen amser gorau! Yn ail mewn ras ble roedd bron i ddau gant o redwyr yn cystadlu, roedd Gareth Wyn Hughes, Penisarwaun, a Hugh O'Donnell (Llanberis gynt) yn bumed. Yn drydedd ferch roedd Sarah Ridgway o Lanberis, a Maggie Oliver o Ddinorwig oedd y ferch gyntaf dros 60 oed.

Yn ystod y mis hefyd, mentrodd tri o dimau o'r fro i Rossendale i gystadlu mewn ras gyfnewid ar fynydd yn ardal Lee Mill. Roedd cant o dimau'n cystadlu ar un o'r dyddiau gwaethaf o ran tywydd, gyda'r llwybrau ar y tir uchel yn afonydd, ac ambell i bant yn golygu mai llyn o ddwr oedd angen ei groesi. Bu'n rhaid i'r gwasanaethau achub gario nifer o gystadleuwyr oddi ar y mynydd yn dioddef o oerfel. Ond daeth y tri thim gartref yn ddiogel wedi mwynhau'r profiad!

Yn dilyn anaf a'i cadwodd rhag cystadlu am y rhan fwyaf o eleni, dangosodd Rob Samuel o Lanberis, nad yw wedi colli dim o'i awch, na'i allu, pan enillodd drydydd cymal Pencampwriaeth Traws Gwlad Gogledd Cymru yn yr Wyddgrug yn ddiweddar.

Chwarae i Gymru

Roedd chwech aelod o Goleg Menai yng ngharfan peldroed dan 19 oed Colegau Cymru a fu'n chwarae yn erbyn Colegau'r Alban ddiwedd Tachwedd. Colegau Cymru a orfu o dair gol i un. Yr aelodau oedd Ifan Emlyn (Llanrug), Shaun Cavanagh, Conig McGonigle, Adam Pritchard, Alex Boss a Jamie Roberts.

Chwaraeon




UN DA HEFO'I DRAED

Yn ddios un o bel-droedwyr mwyaf cystadleuol yr ardal yw Marvin Pritchard, ymosodwr clwb Llanrug. Dros y tymhorau diwethaf sgoriodd ambell i gôl bwysig, yn enwedig mewn gemau cwpan. Mae ganddo 'injan' go lew, ac yn redwr cyson dros y naw deg munud. Ond mae Marvin yn serenu mewn camp arall hefyd, sef bocsio cic.

Ers mis Awst mae Marvin yn rhedeg ysgol hyfforddi'r gamp ac elfennau eraill o'r 'martial arts' yn Nhremadog.

Mae Marvin yn uchel iawn ei barch fel hyfforddwr, gan ei fod wedi cyrraedd safon y bedwaredd radd o'r gwregys ddu.

Ond nid hyfforddi yn unig mae Marvin. Mae hefyd yn cystadlu'n unigol ac erbyn hyn mae'n bencampwr Cymru ar ddau o'r dosbarthiadau – y 75Kg a'r 80-85Kg. Cafodd digon o gefnogaeth i ennill y bencampwriaeth 75Kg. Cynhaliwyd yr ornest yn yr hen Neuadd y Farchnad yng Nghaernarfon, a llwyddodd Marvin i drechu Arwel Morris o Ruthin i gipio'r tlws. Llongyfarchiadau iddo, a gobeithio wedi'r Nadolig y gall roddi 'cic-start' i ail hanner tymor Llanrug a'u harwain i fyny'r tabl.



Noddi Peldroed Lleol



Mae tim peldroed dan 11 oed Clwb Llanrug Unedig yn hynod falch o'u dillad newydd, a noddwyd gan gwmni GWALCH. Sefydlwyd y cwmni er mwyn darparu gwasanaethau gwledig lleol led-led Gwynedd.

